

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Tachwedd 2014

Rhif 449

50c

Dyffryn y Pencampwyr



Hwyllo – Mari Davies o'r Gerlan (ar y chwith) gyda'i phartner hwyllo, Sarah Norbury - pencampwyr merched Prydain

Beth sy'n digwydd i bobl ifanc Dyffryn Ogwen ym myd y campau y dyddiau hyn?

Mae'n edrych yn debyg fod y lle 'ma yn troi'n fagwrfa i bencampwyr! Efallai bod 'na rhywbeth yn y dŵr - neu yn yr awyr! Wel, beth bynnag ydi o , y ffaith ydi bod yna nifer o'n pobl ifainc ni wedi rhagori mewn amrywiol gampau yn ddiweddar!

Daeth pump ohonynt i sylw'r Llais ar gyfer rhifyn Tachwedd – ac mae'n siŵr eich bod chi'n gwybod am ragor! Llongyfarchiadau iddynt i gyd! Maent yn haeddu pob clod! (Mae hanes y pump y tu mewn.)

Isod o'r Chwith i'r dde: Hwyllo - Iago Davies o'r Gerlan;
Treiathlon - Ewan Brown o Dregarth; Rhedeg - Beca Jackson o Nant
Karate - Dewi Glyn Roberts o Rachub.



COFIWCH!

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Nos Wener, 21 Tachwedd
yn Neuadd Ogwen

Dydd Sadwrn, 22 Tachwedd
yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Fe gofiwch, mae'n siŵr, mai ar ffurf cyngerdd y bydd cyfarfod nos Wener, pan fydd unawdwyr lleisiol ac offerynnol, llefarwyr a chorau yn cael cyfle i arddangos eu doniau. Hefyd, cynhelir Seremoni Cadeirio'r bardd, a llenorion ifainc, yn ystod y noson hon.

**Dewch yn llu i fwynhau'r wledd
flynyddol hon!**

Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem

Nos Sul, 21 Rhagfyr

7.00pm

Dewch i ddathlu'r ŵyl yng nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn

Côr y Dyffryn

Corau Ysgol Dyffryn Ogwen
ac eraill

Gwneir casgliad at achos da

Croeso cynnes i bawb

Colli Emlyn

Â'r Llais ar fin mynd i'r wasg, clywyd y newydd trist am farwolaeth Mr. Emlyn Evans, Rhos y Nant, wedi cystudd hir.

Cyhoeddir teyrngedau yn rhifyn Rhagfyr, ond yn y cyfamser anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Eileen, Dafydd, Morfudd a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

- Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901 913901
dewision@hotmail.co.uk
- Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk
- Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com
- Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

- SWYDDOGION**
- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

- Golygwyd y mis hwn gan Neville Hughes.
- Golygydd mis Rhagfyr fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965. hylaw@btinternet.com
- Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 3 Rhagfyr, os gwelwch yn dda. Plygu nos iau, 18 Rhagfyr, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir Llais Ogwan yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Tachwedd

- 21 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.30.
- 22 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00
- 22 Ffair Nadolig. Eglwys St. Ann a St. Mair, Mynydd Llandygái. 11.00 – 2.00
- 22 Marchnad Pesda. Neuadd Ogwen am 9.30.
- 25 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 26 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30
- 27 Merched y Wawr Bethesda. Gosod Blodau. Cefnfaes am 7.00
- 29 Ffair Nadolig y Blaid Lafur yn Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 29 Te Nadolig Eglwys Maes y Groes, Talybont. Ysgoldy. 2.00 – 4.00

Rhagfyr

- 03 Ffair Nadolig Capel Bethlehem Talybont. Y Ffestri am 6.30.
- 04 Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu'r Nadolig.
- 06 Bore Coffi Nadolig NSPCC. Caffi Coed y Brenin, Bethesda. 10.00 – 12.00
- 06 Marchnad Pesda. Neuadd Ogwen am 9.30.
- 06 Cyngerdd 9Bach, Yucatan. Neuadd Ogwen am 7.00
- 07 Gwasanaeth Nadolig Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn Eglwys Porthaethwy am 7.00
- 08 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Ffestri Jerusalem am 7.00
- 11 Y Gymdeithas. Adloniant Nadoligaidd gyda'r Boncathod. Ffestri Jerusalem am 7.00
- 11 Te Nadolig Eglwys y Santes Fair, Tregarth am 2.00
- 13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
- 13 Ffair Nadolig Cylch Meithrin. Cefnfaes
- 18 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45
- 20 Bore Coffi Nadoligaidd Côr y Penrhyn. Cefnfaes 10.00 - 12.00
- 21 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00

Llais Ogwan ar Dâp

- Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
- Gareth Llwyd** ☎ 601415
- Neville Hughes** ☎ 600853

Rhoddion i'r Llais

- £5.00 I gofio penblwydd y diweddar Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, ar 17 Tachwedd, a'i farwolaeth ar 13 Rhagfyr 1988. Oddi wrth Llewela O'Brien.
- £6.00 Kevin Thomas, Abercaseg, Bethesda.
- £22.00 Di-enw, Llandygái
- £50.00 Er cof annwyl am David Wyn Williams (Cochyn Twin) a fuasai'n 54 oed ar 27 Tachwedd. Cariad mawr am byth – Sandra, Darren a Sara.
- £10.00 Er cof am Gwilym Williams oddi wrth y teulu, Maes Caradog.
- £20.00 Er cof am Mr. a Mrs. John Pritchard, (Tŷ Capel Brynteg) oddi eu merch, Caryl, a'i phriod, Llangefni.
- £100.00 Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Diolch yn Fawr

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

- Gwledydd Prydain - £20
- Ewrop - £30
- Gweddill y Byd - £40
- 
- Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Tachwedd**
- £30 (147) Olwen Williams, Cilfynydd, Ffordd Carneddi.
- £20 (48) Cemlyn Jones, 3 Erw Las, Bethesda.
- £10 (13) Hywel Williams, Cae Cnyciog, Llanfairpwll.
- £5 (24) Ann Thomas, 2 Abercaseg, Bethesda.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

- Cysodwyd gan **Tasg**, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk
- Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Annwyl Ddarllenwyr

TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i bobl ifanc Cymru. Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud â phobl ifanc sy'n dysgu'r iaith.
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.
- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa Penhelyg, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion ar 01239 652163, neu trwy e-bost - enfys@urdd.org. Y dyddiad cau yw dydd Gwener, 16 Ionawr 2015.

Yn gywir
Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr

Annwyl ddarllenwyr,

Carwn dynnu eich sylw at Gryno-Ddisg eitha gwahanol a fydd yn cael ei chyhoeddi y mis hwn. Ei henw yw “Lleisiau'r beirdd yn Llefaru Eto”, sef casgliad o feirdd Cymraeg yn darllen rhai o'u cerddi gorau. Mae'r beirdd i gyd ysywaeth wedi'n gadael, felly mae hon yn drysorfa unigryw o leisiau'r gorffennol (pell ac agos) yn llefaru wrthym heddiw. Mae'n dechrau gyda'r unig recordiad sy'n bodoli o Syr John Morris-Jones yn darllen darn o gywydd Goronwy Owen, a recordiwyd ar silindr. Mae'r gweddill, o Cynan i Gerallt Lloyd Owen, o'r bardd o Ryd-ddu i Iwan Llwyd, ac o Waldo i Dic Jones, yn darllen eu cerddi eu hunain. 40 o ddarnau i gyd.

Os ydych am archebu copi o'r CD newydd, gyrrwch siec am £12.98 i SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON LL54 5TG, neu ffoniwch 01286.831111 gyda'r archeb, ac os nodwch enw eich papur bro, bydd Sain yn anfon cyfraniad o bunt i'r papur am bob copi a werthir. Bydd “Yn Llefaru Eto” hefyd ar gael yn y siopau Cymraeg.

Dr. Gwyn Thomas oedd yr ymgynghorydd ar y casgliad hwn, ac wrth inni sylweddoli mor brin yw ein harchif genedlaethol o leisiau'n beirdd, mae Sain wedi dechrau ar raglen o recordio beirdd cyfoes yn darllen eu gwaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,
Dafydd Iwan.

Annwyl Olygydd,

Mae 'na rai wedi bod yn cwyno am gyflwr Mynwent yr Eglwys yng Nghoetmor.

Peth hawdd iawn ydyw cwyno heb wneud dim ! Rwyn siŵr y byddai'r pwyllgor sydd yn gyfrifol am y fynwent yn falch iawn o dderbyn unrhyw roddion tuag at ei chynnal a'i chadw. Ac onid oes cyfrifoldeb i gyfrannu ar y rhai hynny sydd a pherthnasau yn gorffwys yn y fynwent?

Yn gywir,
Ogwena Doyle.
Adwy'r Nant, Bethesda.

Annwyl Olygydd

Mewn blwyddyn, pan roddwyd cymaint o adnoddau i fewn i goffau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chodi cofgolofn yng Ngwlad Belg i'r rheiny o Gymru a gollodd eu bywydau wrth ymladd dros yr Ymerodraeth Brydeinig, mae digwyddiadau hanesyddol eraill wedi mynd yn angof.

Mae achlysur hanesyddol sy'n fwy perthnasol i Gymru, fel cenedl, i'w goffau, pan ymladdodd a bu farw Cymry dros ryddid i'n Cenedl. Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt tra'n ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11eg, sef Rhagfyr 6ed eleni. Ewch i <http://www.gurfal.com/Cilmeri/index.htm> am fwy o fanylion.

Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 14eg, seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr mae olion yr unig un o lysoedd Llywelyn, y cafwyd hyd iddo, i'w gweld.

Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny, yn y bore, caiff torchau eu gosod ar gofgolofn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 12.30 o'r gloch.

Os ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig coffau'r rheiny, “dros ryddid collasant eu gwaed”, gobeithiwn eich gweld yn y seremonïau hyn.

Yr eiddoch yn wlatgar,
Chris Schoen
Penygroes
Gwynedd

Llyfrau Cymraeg yn ffefrynnau gan blant Gwynedd

Gyda blwyddyn ysgol newydd wedi hen ddechrau, mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn hynod falch o gyhoeddi fod llyfrau Cymraeg yn parhau yn ffeffrynnau gan blant ysgolion y sir.

Nid yn unig cafodd mwy o lyfrau ffuglen Cymraeg eu benthyg a'u darllen gan blant ysgolion cynradd Gwynedd trwy ymweliadau Lori Ni a'u hysgol llynedd, ond cynyddodd y nifer llyfrau ffuglen Cymraeg a fenthyciwyd i blant i 12,626.

Mae Lori Ni yn ymweld â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd ddwywaith y flwyddyn gyda chyfle i blant ddewis a dethol llyfrau darllen i'w hunain ac i'r dosbarth. Mae ystod amrywiol iawn o ddeunyddiau darllen cyfoes ac atyniadol ar gael, gyda digon i gadw'r darllenwyr mwyaf brwd yn brysur am y tymor.

Daw'r cyhoeddiad hwn yn dilyn gwaith helaeth gan y Siarter Iaith Gymraeg - cynllun arloesol Cyngor Gwynedd i hyrwyddo ac annog defnydd plant ysgolion cynradd y sir o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd – dros y blynyddoedd diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd a chyfrifoldeb am lyfrgelloedd a'i iaith Gymraeg:

“Mae'n hynod bwysig bod plant yn cael mynediad rheolaidd at lyfrau Cymraeg a Saesneg newydd er mwyn datblygu eu sgiliau darllen, llythrennedd a dwyieithrwydd. Rydym yn gwybod fod athrawon, a disgyblion ysgolion Gwynedd yn gweld ymweliadau Lori Ni yn wasanaeth hanfodol a wir yn ei werthfawrogi.

“Mae'n galonogol iawn fod plant Gwynedd yn dewis darllen llyfrau Cymraeg fwyfwy na llyfrau eraill. Gyda chronfa enfawr o lyfrau Cymraeg i'w dewis ohonynt gan wasanaeth lyfrgelloedd Gwynedd, nid yw'n syndod fod llyfrau Cymraeg mor boblogaidd ymysg plant a phobl ifanc y sir.

”Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn newyddion gwych i'r Siarter Iaith Gymraeg, gan ddangos fod y gwaith gwych maent yn ei wneud yn ysgolion cynradd y sir yn annog yr iaith Gymraeg yn talu ar ei ganfed.”

Am fwy o wybodaeth am lyfrgelloedd Gwynedd, ewch draw i'r wefan: www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell

I ddysgu mwy am y Siarter Iaith Gymraeg dilynwch nhw ar Twitter - @SiarterIaith

Lansio Pasport Dŵr Nofio Cymru yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio rhaglen gwersi nofio newydd yn rhan o gynllun ehangach Pasport Dŵr Nofio Cymru.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gan Nofio Cymru, a gefnogir gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Pasport Dŵr yw'r unig gynllun dysgu nofio cydnabyddedig yng Nghymru ac mae'n cynnwys cynllun addysgu pwrpasol a chynllun gwobrau dwyieithog. Mae'n gynllun dysgu nofio chwyldroadol sy'n defnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i wella profiad y plant, eu rhieni, athrawon ac ysgolion nofio.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno'r cynllun Pasport Dŵr yn saith pwl nofio'r sir a bydd yr elfen dechnolegol yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos.

Am fwy o wybodaeth am byllau nofio yng Ngwynedd ac am eich canolfan hamdden leol, ewch i www.gwynedd.gov.uk/hamdden

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Yn 18 mlwydd oed
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Jack Rhys Henry, Erw Las, ar ddathlu ei benblwydd yn 18 mlwydd oed ym mis Hydref. Pob lwc i'r dyfodol Jack!

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellad buan i bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith Mrs Hilda Howells, Ffordd Ffrydlas; Mr Clifford Smith, Adwy'r Nant.

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fy mew'n profedigaeth yn ddiweddar:

Mrs Ann Parry, Adwy'r Nant, ar golli ei mab annwyl, Mr Geraint Parry, Mynydd Llandygái.

Mr Gwyn Parry a'r teulu, Maes Coetmor;

Mr a Mrs Dei Jones a'r teulu, Ffordd Bangor ar golli mam, nain a hen-nain yn Llanberis, sef y ddiweddar Mrs Mona Wyn Jones, ar 17 Hydref.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i:
Mrs Jean Ogwen Jones, Ffordd Coetmor, yn 80 oed ar 25 Hydref.
Mrs Nance Owen, Bryn Tirion, yn 90 oed ar 6 Tachwedd.
Rebecca (Betty) Walker, 24 Glanogwen, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 23 Tachwedd.

Marwolaethau
Ar 8 Hydref yng nghartref yng nghartref Plas-y-bryn, Bontnewydd, gynt o Fraichmelyn a Ffordd y Stesion, yn 94 oed, bu farw Mrs Mair Richards, priod y diweddar Mr John Richards a mam a mam-yng-nghyfraith John ac Eleri a nain Dafydd, Osian, Elystan ac Andreas. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn amlogsgfa Bangor ddydd Llun, 20 Hydref. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 13 Hydref, bu farw Mrs Marion Thewlis, 18 Rhes Gordon, yn 62 oed. Priod Mr Les Thewlis a mam annwyl Ellen a nain hoffus Mia a Jamie. Roedd yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Anthony Jones (Siop Rhif 1, Rhes Ogwen). Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd Mercher, 22 Hydref, yng

nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor gyda'r Parchedig Clifford Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi oll fel teulu.

Ar 14 Hydref, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Betty Wyn Smith, 36 Adwy'r Nant, yn 70 oed. Priod annwyl Mr Clifford Smith a mam ofalus Paul ac Eleri a nain hoffus Cian. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mawrth, 21 Hydref, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Christina McRea gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu, yn eich colled.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Hydref, bu farw Mrs Mair Sullivan, 7 Glanogwen, yn 87 oed. Priod annwyl Mr Ernie Sullivan, mam a mam yng nghyfraith Alan a Marian, David a Glenys, Shirley ac Alma a Lynne. Nain a hen-nain hoffus, chwaer a modryb. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor dydd Gwener, 31 Hydref a chladdwyd ei llwch gyda'i phriod yn Eglwys Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich hiraeth.

Yng nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn, ar 29 Hydref, bu farw Mrs Catherine Jane Thomas (Cassie), yn 93 oed. Priod annwyl y diweddar Mr Oscar Thomas, Brintirion; mam a mam-yng-nghyfraith Philip a Carys. Roedd yn nain garedig i Ffion a Llinos ac yn chwaer a chwaer-yng-nghyfraith i Elis ac Ann. Cynhaliwyd ei hangladd fore Mercher, 5 Tachwedd, gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor, gyda'r Parchedig Clifford Williams yn gwasanaethu, a chafwyd teyrnged i'w chwaer fawr gan ei brawd, Mr Elis Roberts. Mr Wyn Williams oedd wrth yr organ.

Roedd Cassie yn wraig hoffus iawn ac yn barod ei chymwynas ac wrth ei bodd yn ymweld â'r Stryd Fawr a chael paned a sgwrs. Wedi symud i Fethesda daeth yn aelod ffyddlon o Capel Bethesda ac yna Capel Carmel. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

CAPEL BETHANIA

Gwasanaethau

7 Rhagfyr : Mr. Glyn Owen.
21 Rhagfyr : Parchg. Gwynfor Williams.

Oedfaon am 5.30
Croeso Cynnes i Bawb

Pedair Cenhedlaeth



Pedair cenhedlaeth o deulu Rowlands, sef Glenys, hen nain; Helen, nain; Steffan, tad; a Jac y mab, yr ŵyr a'r gor-ŵyr. Tynnwyd y llun pan oedd Jac yn ddiwrnodau oed. Mae o bellach dros ei ddeg mis.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:
Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid 8.00am Boreol Weddi 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Yr Eglwys Unedig

Cofiw'n am ein holl aelodau sydd yn methu presenoli eu hunain yn y gwasanaethau oherwydd gwaeledd, a meddylw'n yn ddwys am Mrs Glenys Clark sydd ym Mhlas Ogwen erbyn hyn. Anfonwn ein cofion cywiraf ati.

Ar Hydref 9fed cynhaliwyd 'Y Gymdeithas' dan lywyddiaeth Minnie Lewis gyda Stephen Rees a Gwydion Rhys, ei fab yn ein diddori i'r eithaf. Cyfansoddwyd englyn i'r Gymdeithas gan Dafydd Morris, fel a ganlyn:-

Un aelwyd efo'n gilydd i roi fflach
A rhyw fflam o'r newydd
Fel bo ffaith ac fel bo ffydd
I fwydo'r cyfarfodydd.

Darparwyd lluniaeth gan aelodau'r Pwyllgor a rhoddwyd diolchiadau haeddiannol am noson diddorol gan Jean Ogwen Jones.

Ar Hydref 14eg bu Seiat dan arweiniad Y Parchedig John Owen ac ar yr 28ain dan arweiniad Anna Jane Evans.

Gwasnaeth Diolchgarwch.
Cynhaliwyd y gwasanaeth dan arweiniad Eurwen Morris gyda Elena, Joe a Rhiannon yn cynorthwyo i gyfeiliant Gwenno. Mae gweithgareddau'r tymor yn parhau i fynd rhagddynt, sef y Seiadau, Llenwi'r Cwpan, y Clwb Celf, yr Ysgol Sul a Chlwb Nos Fawrth i'r ieuanc.

Cydymdeimlad. Dwys gydymdeimlwn â Mrs Marian Sullivan sydd wedi colli ei Mam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Oedfaon i ddod :

Tachwedd 23	Cyfarfod Eglwysig (10.00)
Tachwedd 23	Miss Nerys Jackson (5.00)
Tachwedd 30	Parch.W.H.Pritchard
Rhagfyr 7	Parch.R.O.Jones.
Rhagfyr 14	Nadolig y Plant (10.00)
Rhagfyr 14	Canon Idris Thomas. (5.00)
Rhagfyr 21	Mrs.Eirlys Williams (10.00)
Rhagfyr 21	Dathlu'r Nadolig (5.00)

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod y gangen Nos Iau, y 30ain o Hydref dan lywyddiaeth y Fns.Elena Owen gyda’r Fns.Gwenno Evans yn cyfeilio.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jean (Northam), Rhiannon a Glenys. Bu Jean yn yr Ysbyty yn ddiweddar ac mae Rhiannon yn gwella ar ôl damwain. Dymuniadau gorau i’r ddwy. Cofion,yn ogystal at Glenys Clark, sydd erbyn hyn yng nghartref Plas Ogwen. Dymunodd y llywydd yn dda i Muriel, Gwenno a Dafydd (gŵr Eurwen) sydd ddim yn dda. Estynnwyd llongyfarchiadau i Jean ac Eurwen ar ddathlu penblwydd arbennig.

Wedi trefnu’r Bore Coffi ar Dachwedd 1af, daeth yn amser i gyflwyno’r wraig wadd sef, Mrs. Sarah Davies, Rhosgadfan. Mae Sarah wedi dioddef o ‘glefyd y galon’ers yn blentyn a bu’n wael iawn pan yn 30 oed. Felly, ei phrif amcan yw cefnogi a hybu ‘Sefydliad Prydeinig y Galon’ (BHF) a sefydlwyd yn 1961. Mae’n darlithio ar bwysigrwydd y gwaith ymchwil a chawsom wybodaeth eang a gwerthfawr ynglŷn â’r clefyd a beth i’w wneud mewn argyfwng.

Diolchodd y llywydd iddi am noson hynod oleuedig a hefyd i’r merched am ddarparu’r lluniaeth. Rhoddwyd y wobr lwcus gan Rita Bullock a’r enillydd oedd Rita Evans. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ar 27 Tachwedd.

Gorffwysfan

Ddydd Mercher, 29 Hydref, aeth dros 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i’r Wyddgrug a Tweedmill. Cafwyd diwrnod ardderchog a phawb wedi mwynhau. Cyflwynwyd gair o ddiolch am y trefniadau gan ein Cadeirydd, Mr Elfed Bullock. Atgoffwyd yr aelodau am ein cinio Nadolig yn y Clwb Criced, Bethesda, ddydd Mercher 17 Rhagfyr am 12.30 o’r gloch. Hefyd i’r aelodau ddod â gwobr os gwelwch yn dda, ar gyfer y raffl.

Bydd cyfle i chi roi eich enw ar gyfer y cinio yng Ngorffwysfan ac ar gyfer y Te Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen, brynhawn dydd Mawrth, 9 Rhagfyr am ddau o’r gloch. Rydym fel clwb yn ddiolchgar iawn i Ysgol Dyffryn Ogwen am eu gwahoddiad.

Teulu Diolchgar Siôn



Hoffai teulu Siôn Wyn Roberts, Ciltrefnus, Gerlan, ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd tuag at Apêl Siôn.

Diolch yn arbennig i'r unigolion a’r busnesau lleol isod am gyfrannu tuag at y raffl :-

Londis, Tesco, Zip World, Bounce down under, Blaenau Ffestiniog, So Chic! Bangor, Dŵr y Mynydd, Copa, Mabinogion, Gwesty Victoria , Donna Roberts, David ac Ellen Edwards, Stephanie Sherlock, Rachel Gordon.

Casglwyd cyfanswm o £1,350.00 i Apêl Siôn. .

Mae o wrth ei fodd hefo’r goleudau arbennig yn ei ystafell wely, a 'r ipad a fydd yn gymorth mawr iddo gyda'i addysg yn Ysgol Pendalar.

Mae Siôn wedi derbyn cryn dipyn o lawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i 'r staff yno am eu gofal dwys ohono.

Diolch yn fawr iawn i bawb!

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd, cafwyd cyfle unwaith eto, trwy garedigrwydd Marchnad Ogwen, i gynnal stondin, gyda’r arian yn mynd at waith y Cyfeillion. Diolch i Jean, Kath, Ceinwen ac Ann am eu gwaith ac i chwithau, gyfeillion Dyffryn Ogwen am eich cefnogaeth bob amser i waith y Cyfeillion.

Byddwn yn cynnal Gwasanaeth Nadolig ar nos Sul, 7 Rhagfyr, yn Eglwys Porthaethwy am 7.00 o’r gloch, ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni yno.

Diolch

Dymuna Neville ac Angharad, Pant, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 17 Hydref. Derbyniwyd llu o gardiau, a digon o flodau i gychwyn rhywbeth tebyg i Erddi Fron Goch yma! Diolch hefyd am yr anrhegion hael a’r gacan fawr i ddathlu. Slei iawn genod! O ia! Mae Nev yn dal i ddisgwyl am ei fedal, ond mae Angharad yn deud ei bod hi’n haeddu dwy! Diolch i bawb am wneud ein diwrnod arbennig yn un cofiadwy iawn!

Nant Ffrancon



Pencampwr

Llongyfarchiadau i Beca Jackson, Braich Tŷ Du Roedd yn rhedeg yn Ras y Cob, Porthmadog, ddiwedd mis Medi, Beca oedd y ferch gyntaf yn y ras agored ac mae hi wedi ennill am yr ail flwyddyn yn olynol.

Capel Nant y Benglog

Tachwedd 23 : Mr. Goronwy Ellis.
Tachwedd 30 : Parchg. John Lewis Jones.
Rhagfyr 07 : Oedfa yng ngofal Tomos Jones.
Rhagfyr 14 : Parchg. Dafydd Lloyd Hughes.
Rhagfyr 21 : Gwasanaeth Nadolig yng ngofal Ann Pierce Jones.

Oedfaon am 2.00 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ 601880

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid
Nos Fercher, 26 Tachwedd am 7.00 o’r gloch yn Ffestri Capel Carmel

Dewch i rannu atgofion ac i drafod tarddiad ambell i lysenw diddorol o’r ardal.
CROESO CYNNES!

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid
Cafwyd noson ddifyr iawn unwaith eto, yn rhannu atgofion am Ffair Llan, ac yn adrodd straeon arswyd oedd yn gysylltiedig â’r ardal. Croesawyd pawb gan Mr Dilwyn Pritchard, a manteisiodd yntau ar y cyfle i rannu rhywfaint o’i waith ymchwil gyda ni, drwy ddarllen un neu ddwy o hen ddogfennau yn sôn am Ffair Llan. Roedd un, yn arbennig, yn sôn am lofruddiaeth a ddigwyddodd yn Nhafarn y Bull, Llan, ar noson y ffair - rhywbryd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg! Ymunwch â ni yn y cyfarfod nesaf [26/11/14] am sgysiau difyr, a thrafodaeth am darddiad rhai o lysenwau’r ardal.

Clwb yr Henoed
Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn festri Capel Carmel. Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Lynda a Dilwyn Pritchard. Darlennodd Dilwyn farddoniaeth am hanes Rachub a chawsom wledd wrth wylïo DVD o hen luniau o gymeriadau a digwyddiadau hanesyddol y pentref.

Rita, Medi a Ceinwen oedd yng ngofal y baned a rhoddwyd y wobrlwcus gan Rita. Vera Morgan oedd yr enillydd lwcus.

Etholwyd swyddogion canlynol : - Llywydd/Glenys Roberts, Hen Barc. Mae hi yn ymddeol o swydd y trysorydd ar ôl nifer fawr o flynyddoedd. Diolchwn hefyd i Margaret Owen am lywyddu a gwneud y gwaith ysgrifennydd yn ystod 2014.

Gyda'r Nadolig ar ein gwarthaf lansiwyd apêl i godi arian tuag at goffrau'r Clwb. Fel ymgais i chwyddo'r cyllid bychan sydd gan y Clwb rydym wedi agraflu cardiau gyda sgwariau arnynt. Mawr obeithiwn y byddwch i gyd yn cefnogi'r Clwb drwy brynu sgwar (neu ddau) am £1 yr un.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Tachwedd yn Ffestri Carmel am 2.00 o'r gloch, ac mae croeso mawr i gyn- aelodau ac aelodau newydd i ymuno gyda ni.

Cydymdeimlad
Diwrnod Ffair Llan ydoedd pan dorrodd y newydd am farwolaeth un o gymeriadau'r pentref. Roedd Megan Hughes wedi byw y rhan fwyaf o'i 90 mlynedd yn Lôn Groes.

Clywais ei disgrifio fel hyn yn ystod y dyddiau ar ôl ei marwolaeth - Cristion, cyfaill da, cymeriad hwyliog, cymdoges arbennig a chefnogwr cyson i fywyd cymdeithasol y pentref. Eglwysreg oedd Mrs Hughes, ond, ar nosweithiau Sul gaeafol byddai'n troi mewn i Gapel Carmel neu Capel Salem yn hytrach na wynebu'r daith i Llan. Gwelwn nad oedd ei Christnogaeth yn gul felly. Roedd ei theulu yn bwysig iawn iddi a mawr fu'r gofal ganddi ohonynt. Fe wynebodd ambell i dro trwstan yn ystod ei hoes a hynny gyda dewrder. Bydd bwlch ar ei hôl o fewn y teulu yn siŵr i chi.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Myrddyn, Gwen, Nerys a John a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu'r angladd dan ofal y Parch John Matthews yn yr Amlosgfa ym Mangor ar Sadwrn, Tachwedd 8.

Ymddeoliad
Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Bryn Evans, Bron Arfon wedi iddo ymddeol o'i swydd gydag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

Gwellhad
Dymunwn wellhad buan i nifer o drigolion sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai, yn eu plith mae Mrs Jean Northam, Llwyn Bedw, a Dafydd (Dids) Jones, Bryn Eglwys, Mrs Alice Jones, Tan y Garth a Mrs Christine Jones, Bron Bethel. Anfonwn ein cofion hefyd at Griff ac Eirwen Williams, Ffordd Llanllechid.

Pen-blwydd Hapus
Gobeithio fod Gwion Williams wedi mwynhau ei ben blwydd yn 21 oed diwrnod cyn Ffair Llan. Dymuniadau gorau iddo yn ei flwyddyn olaf ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Geni
Llongyfarchiadau i Eryl a Steph, Ffordd Llanllechid ar enedigaeth merch Seren Awel. Pob hwyl i nain a taid, Trefor a Beverley, ac i Mrs Betty Jones, Tanybwlech ar ddod yn hen, hen nain.

Nadolig Llawen
Mae Vernon Davies, Yr Ynys, am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cyfeillion a chymdogion. Ni fydd Vernon yn anfon cardiau eleni. Yr un yw'r neges gan Mrs Betty Jones, Tanybwlech ni fydd hi ychwaith yn anfon cardiau eleni ond yn dymuno yn dda i bawb.

Capel Carmel

Yng ngofal y plant a'r bobl ifanc yr oedd y gwasanaeth dathlu Diolchgarwch am y cynhaeaf. Roedd yn oedfa hapus o ganu hwyliog gan y plant, yn cynnwys yr hen ffeffryn, 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd.' Cymerodd y bobl ifanc eu rhan yn raenus gan gyd-ddarllen o'r Beibl a chanu'n ddeusain yn hyfryd iawn. Diolch i Miss Elin Mair Jones am lywyddu'r gwasanaeth yn ardderchog yn ôl ei harfer. Daeth Mrs Gwenan Davies Jones, Pennaeth Ysgol Llanllechid, i ddweud gair wrth y plant a'r gynulleidfa. Mawr yw ein diolch iddi eto eleni. Cyfanswm y casgliad oedd £110 sydd wedi ei drosglwyddo at gardiau casglu'r plant at y Genhadaeth.

Byd Mari Jones
Bu aelodau'r Clwb Dwlo Pysur ar daith i'r Bala yn ystod wythnos hanner tymor yr Ysgol. Ymwelwyd a Chapel Tegid, Cerflun o Thomas Charles a'i gartref yn y Stryd Fawr. Wedi cinio a golwg ar rai o siopau'r Bala aethom i safle hen Eglwys Llanycil. Yno cawsom weld yr arddangosfa ardderchog o hanes Mari Jones, Thomas Charles a Chymdeithas y Beibl. Diwrnod cofiadwy a braf yn wir.



Y bobl ifanc o flaen cerflun Thomas Charles

Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Tachwedd
23 Mererid Mair Williams 5.30
30 Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams 5,00

Rhagfyr
07 Y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen 2.00
14 Y Parchedig Geraint Roberts 5.00
21 Gwasanaeth Nadolig

Yr oedfaon am 5.00
Ysgol Sul: 10.30 y bore
Dwylo Pysur: Nos Wener 6.30 pm
Te Bach: Pnawn Llun, 15 Rhagfyr 2.30 tan 4.00

Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel Llanllechid
Te Bach
Pnawn Llun, 15 Rhagfyr
2.30 - 4.30
Croeso Cynnes i Bawb

Capel Bethel Trefn Gwasanaethau

23 Tach : Parchg. Huw Pritchard.
30 Tach. : Parchg. Richard Owain Jones.
7 Rhagfyr : Parchg. John Pritchard.
14 Rhagfyr : Gweinidog.
21 Rhagfyr : Parchg. Harri Parri.
28 Rhagfyr : Dim Oedfa.

Oedfaon am 2.00 o’r gloch Croeso cynnes i bawb

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

Profedigaeth

Yn ystod mis Hydref daeth y newyddion trist i'r pentref am farwolaeth Delyth Robinson, Ciltrefnus, a hithau ym mlodau ei dyddiau, a hynny ar ôl dioddef afiechyd blin. Merch o Bentraeth, Ynys Môn, oedd Delyth yn wreiddiol, ond ei bod wedi byw yn y Gerlan ers blynnyddoedd ar ôl priodi efo Peter. Bwriodd ei hun yn llawn i fywyd y pentref, a bu o gymorth mawr i sawl cymdeithas a mudiad yn yr cylch. Roedd yn hynod o boblogaidd yn yr ardal, ac yn uchel iawn ei pharch gan bawb, fel y dangosodd y dyrfa luosog a ddaeth i'w hangladd yn Amlogsgfa Bangor. Bydd colled fawr ar ei hôl. Yr ydym yn gyrru ein cydymdeimlad dwys i'w phriod, Peter, ei meibion, Wayne, Mark, a Dion, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr.

Diolch

Dymuna Peter Robinson a'r teulu ddiolch o galon i bawb, yn deulu,ffrindiau a chymdogion, am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli gwraig a mam annwyl, sef y diweddar Delyth Robinson. Diolch i bawb am y cardiau, a'r geiriau caredig, ac am y rhoddion i gyd. Diolch yn fawr iawn!

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Gwen a Dewi Griffith, Ciltrefnus, a'r teulu, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli tad Gwen, y diweddar Richard Griffith, Bontuchaf.

Brysiwch wella

Mae Ken Williams, Stryd Goronwy, wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae adref bellach, ac rydym yn gyrru ein cofion ato, ac yn dymuno gwellad buan iddo. Pob hwyl, a brysia wella, Ken!

Croeso

Rydym yn croesawu Mark, Donna, a'r plant i'w cartref newydd yn Stryd Goronwy. Nid yw Stryd Goronwy yn ddieithr i Donna gan mai yno y cafodd ei magu, ac mae ei rhieni, Trefor a Sandra, yn byw yno o hyd. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn eich cartref newydd

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elen Williams, Stryd y Ffynnon, ar gael ei dewis i nofio yn nhim nofio Gala yr Urdd ym Mangor. Bydd Elen yn cymryd rhan yn y gala yn ystod y mis hwn, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddi

Diwedd yr Ysgol Feithrin

Trist yw cofnodi fod y Cylch Meithrin wedi dod i ben yn y Gerlan, oherwydd diffyg niferoedd. Mae'r Cylch wedi ei gynnal yn y Caban ers 1978, pryd y symudodd o festri Capel y Gerlan, a chynhaliwyd ef yn ddifwlch ers hynny. Diolch yn fawr iawn i'r holl arweinwyr a staff a fu'n cynnal y Cylch dros y blynnyddoedd. Diolch yn arbennig i'r tair oedd yn cynnal y Cylch yn y blynnyddoedd olaf hyn, sef Siân Roberts, Mandy Roberts, ac Alaw Pritchard. Rydym yn dymuno'r gorau i'r tair ohonoch yn y dyfodol. Bydd yn chwith heb y Cylch Meithrin yn y pentref.

PENCAMPWYR

Blwyddyn Gyffrous i Hwylwyr o'r Gerlan

Mae Iago a Mari Davies o'r Gerlan yn aelodau o garfannau hwyllo Cymru a Phrydain ac wedi bod yn brysur iawn dros fisoedd yr haf yn cystadlu ar draws y byd.

Mae Mari yn 17 oed ac yn hwyllo yn y dosbarth 420 gyda'i phartner, Sarah Norbury.

Cystadleuaeth cyntaf yr haf i'r genod oedd Keiler Woche yn yr Almaen, regatta rhyngwladol anferth gyda miloedd yn mynychu a chystadlu ar draws nifer fawr o ddosbarthiadau. Yn anffodus cafwyd stormydd a glaw mawr drwy gydol yr wythnos gan olygu mai dim ond 4 ras a gynhaliwyd dros deuddydd. Er hynny roedd y regatta yn gyfle i'r genod dderbyn sylw Mark Rushall, un o brif hyfforddwyr tîm Olympaidd Prydain, fel rhan o'u paratoadau at brif bencampwriaethau eraill yr haf.

Wedi treulio ychydig o ddyddiau adre, aethant i Wersyll Tîm (Holding Camp) yn Surrey gyda gweddill y tîm ISAF Ieuencid Prydain i baratoi cyn hedfan allan i Tavira ym Mhortiugal. Cafodd y genod eu dewis i'r tîm wedi iddynt orffen yn ferched cyntaf ym Mhencampwriaethau Ieuencid Prydeinig ym mis Ebrill yn Weymouth. Fflyd bach iawn oedd yn rasio ym Mhortiugal gan mai dim ond un cwch oedd yn cyrychioli pob wlad. Her arall yn yr wythnos oedd y gwyntoedd ysgafn a'r tymheredd uchel. Cychod benthyg oedd yn cael eu defnyddio gan bawb, felly roedd rhaid dod i arfer gyda hwyliau a chwch hollol wahanol yn ystod yr ymarfer cyn y rasio. Ar ôl wythnos o rasio cystadleuol gorffennodd y genod yn 10fed allan o'r 27 gwlad oedd yn bresennol.

Ymlaen wedyn i Bencampwriaethau agored 420 y Byd yn Travemunde, eto yn yr Almaen. Bu tridiau o ymarfer cyn y rasio a braf oedd cael defnyddio eu cwch eu hunain unwaith eto. Aeth hanner cyntaf yr wythnos yn dda ac 'roedd y canlyniadau yn gyson. Aeth y genod i fewn i gyfres rasio Fflyd Aur yn y 15fed safle. O hynny ymlaen newidiodd cyfeiriad y gwynt a chafodd y genod drafferth gyda chysondeb, gan gael rasmus rhwystredig ble yr oeddynt yn methu cymryd mantais o newid cyferiad y gwynt. Ar ddiwedd yr wythnos, 'roedd y genod yn 24ain - a nhw oedd y merched Prydeinig gorau. Gwersi pwysig wedi eu dysgu beth bynnag! Uchafbwynt eu Haf, heb os nac oni bai, oedd Pencampwriaethau Ieuencid Ewropeaidd yn Gdynia, yng Ngwlad Pwyl. Reit o'r cychwyn cyntaf roedd y genod yn hyderus gyda'r math o wynt a steil y rasio gan ganolbwyntio yn bennaf ar symudiad y cymylau. Gwers arall a ddysgodd y genod oedd bod gallu codi eu pennau ar ôl ras wael yn allweddol i symud ymlaen at y ras nesaf. Llwyddodd y genod i godi i'r ail safle am ddeuddydd yng nghanol yr wythnos cyn gorffen yn drydydd a chipio'r Fedal Efydd yn ystod y ras olaf. Dyma'r fedal rhyngwladol gyntaf i'r genod fel tîm 420.

Daeth yr haf i ben yn llwyddiannus i'r genod yr wythnos diwethaf ym Mhencampwriaeth Prydeinig 420 yn Hayling Island, ble ennillon nhw deitl Pencampwyr Merched Prydain. Mae hyn yn golygu bod y merched wedi selio eu lle fel y goreuon ym Mhrydain trwy orffen ar y brig ym mhob cystadleuaeth Prydeinig 420 mewn blwyddyn calendr gyfan - dipyn o gamp i ystyried mai dim ond 17 mlwydd oed yw'r genod, gyda blwyddyn arall o gystadlu yn y dosbarth ieuencid o'u blaenau.

Mae eu cylluniau dros yr hydref yn cynnwys cystadlu yn Bordeaux a Gogledd Sbaen yn erbyn hwylwyr gorau Ewrop, a hyn oll yn rhan o'u paratoadau ar gyfer Pencampwriaethau'r Byd 2015 yn Siapan.

Yn ystod yr hydref fydden yn teithio i Ffrainc a Sbaen er mwyn cystadlu yn rheoliadd yn erbyn yr hwylwyr gorau yn Ewrop. Y gobaith yw datblygu ar brofiadau eleni a chyrraedd y podiwm ym mhrif bencampwriaethau rhyngwladol 2015 - yn enwedig Pencampwriaethau'r Byd yn Siapan!

Mae brawd iau Mari, Iago, sydd yn 15 oed, hefyd wedi bod yn brysur iawn yn ei flwyddyn olaf yn y dosbarth Optimist.

Daeth Iago yn Bencampwr Optimist Cymru yng Nghlwb Hwyllo Pwllheli ar ddechrau'r haf – profiad braf iawn - yn arbennig yn ei glwb ei hun!

Yn ystod mis Mehefin cafodd ei ddewis i deithio i America fel rhan o dîm dethol o Brydain i ymarfer gyda charfan hwyllo'r Unol Daleithiau. Cafodd yr hyfforddiant ei gynnal yng Nghwb Hwyllo Annapolis ger Washington.



Cafodd groeso mawr gan deulu o hwylwyr lleol yn eu cartref, a chafodd gyfleoedd gwych oddi ar y dŵr i fynd ar nifer o ymweliadau lleol a mwynhau'r bwyd mor fendigedig.

Ers dychwelyd o America, oherwydd ei oed, mae Iago wedi bod yn canolbwyntio ar symud ymlaen i'r oedran ieuencid, i ymuno â'i chwaer yn y dosbarth 420. Ond nid yn yr un cwch - lot gormod o ffraeo!!

Mae Iago wedi cystadlu mewn nifer o gystadleuthau Prydeinig i ennill profiad ac yn ceisio datblygu partneriaeth ar hyn o bryd er mwyn ceisio am le yn Ngharfannau Ieuencid Cymru a Phrydain dros y Gaeaf.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎01248 355336

Calendr Llais Ogwan
Mae calendr 2015 ar gael nawr, y pris yw £4 ac ar gael gan eich dosbarthwr. Mae lluniau diddorol ynddo ond yn anffodus does yr un o Rhiwlas. Felly chwi ffotograffwyr brwd beth am fynd ati i dynnu lluniau a’u hanfon ar gyfer y calendr nesaf. Bydd mwy o fanylion ar gael yn ystod y flwyddyn.

Clwb Rhiwen
Yn ein cyfarfod ar 8 Hydref cawsom ein cinio diolchgarwch yn y Neuadd a braf oedd croesawu aelod newydd atom sef Mrs Enid Williams. Cawsom ddau gawl blasus wedi eu paratoi gan Pam a Dee ac i ddilyn cawsom bwddin ffrwythau gan Ann a digon o bethau melys efo’n paned gan Jean a Frances. Diolch i bawb a fu’n paratoi. Anfonwyd ein cofion at Beryl sydd ddim yn gallu mynychu’r cyfarfodydd ar y funud. Brysiwch wella Beryl.

Ar 22 Hydref daeth Mrs Buddug Jones atom o Gaernarfon gyda Freya ei chi tywys. Dyma’r ail gi iddi ei gael ac eglurodd inni sut y mae’r cŵn yn cael eu dewis a’u hyfforddi. Mae’n broses eithaf hir a chostus ond wrth gwrs o fudd mawr i’r sawl sydd eu hangen. Mae gwirfoddolwyr yn cerdded y cŵn a bydd llawer o waith yn cael ei wneud cyn trosglwyddo’r ci i’w berchennog newydd. Roedd pawb wedi dotio at Freya, mae sawl aelod o’r clwb yn berchen ci ac yn naturiol roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yn Freya. Cawsom bnawn difyr yng nghwmni Buddug. Mae’n brysur iawn ac yn teithio llawer gyda’i chi.

Merched y Wawr
Cyfarfu’r gangen ar 14 Hydref a hwn oedd ein cyfarfod cyntaf yn y Neuadd gan i rai ohonom ymweld â changen Bethesda ym Mis Medi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Agnes, Ann a Iona. Llywydd y noson oedd Annes. Fe’n hatgoffodd mai hwn oedd y tro cyntaf i ni gyfarfod ers marwolaeth Mrs Magi Jones, Penrhyn Teras, a fu’n aelod ffyddlon o’r gangen o’r dechrau ac fe gofiwn i Annes ysgrifennu englyn ar ei chyfer pan oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed; yn sicr rydym yn meddwl am y teulu. Llongyfarchwyd Linda ar iddi hi a Melfyn ddod yn nain a thaid unwaith eto. Mae ŵyr bach yng Nghaerdydd, Tomos Elidir, brawd bach i Nel. Llongyfarchiadau i chi fel teulu. Hefyd braf oedd croesawu Bet yn ôl i’r gangen a chydymdeimlwyd

â hithau ar golli ei mam yn ystod misoedd yr haf.

John Dilwyn Williams oedd y gŵr gwadd ac eglurodd fod ganddo ddiddordeb, ers yn ifanc, mewn hel achau. Roedd gan y teulu gasgliad o lythyrau gan un aelod, Owen Jones a aeth allan i’r UDA yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trwy gyfrwng y llythyrau cawsom olwg byw o fywyd yn nhalaith Kansas yn y dyddiau cynnar, ac o argraffiadau un Cymro o’r Americanwyr, ond yn bennaf daeth ei hiraeth am ei wlad, ei deulu a’r iaith Gymraeg yn amlwg. Mynegwyd ein diolch iddo am noson ddiddorol gan Gwen. Yn ystod y baned a baratowyd gan Dilys a Carol cyfeiriwyd at lwyddiant Annes yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd gystadleuaeth y Soned, y Cywydd a’r Pum Englyn Milwr, ac rydym fel cangen yn ymfalchio yn ei llwyddiant. Cyflwynodd Gwen dusw o flodau iddi.

Yn yr ysbyty
Mae Peter Grace, Tan y Weirglodd yn yr ysbyty ers rhai wythnosau bellach ac anfonwn ein dymuniadau gorau ato. Hefyd yn Ysbyty Eryri mae Miss Dilys Jones o Fangor neu Miss Jones Ysgol Waun i laweroedd ohonom. Bu’n dysgu cenedlaethau o blant y pentref ac yn uchel ei pharch gennym. Tra yn yr ysbyty

dathlodd ei phen-blwydd yn 92 oed. Brysiwch wella Miss Jones.

Dathlu penblwydd
Yn ddiweddar dathlodd Eric Jones, Bro Rhiwen, ben-blwydd arbennig. Rydym yn falch o’i weld wedi gwella ar ôl ei lawdriniaeth a bydd yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn. Pob dymuniad da Eric! Llwyddiant Triathlon Yn ddiweddar cymerodd Petra o’r Hen Eglwys ran mewn triathlon yn Llanberis a chafodd gryn lwyddiant. Daeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth y merched o dan 23 oed a hefyd yn ail o’r merched i gyd. Tipyn o gamp a phob hwyl i ti yn y dyfodol yn y maes yma.

Colli dau a fagwyd yn y pentref Gareth Roberts
Ar 6 Hydref, yn 79 mlwydd oed, bu angladd Gareth Roberts yn yr Amlosgfa ym Mangor. Fe’i magwyd ym Mro Rhiwen, yn fab i Mr a Mrs Bob Roberts ac yn frawd mawr i Eirianwen a brawd bach y ddiweddar Gwenfron a Beti Wyn. Roedd yn briod â Hefina, yn dad i Nia ac yn daid hoffus i’r plant. Bu’n gweithio ar y rheilffordd am nifer o flynyddoedd ac wedyn bu’n bostmon hyd at ei ymddeoliad. Roedd tyrfa gref yn yr amlosgfa a’i weinidog, y Parchedig Eric Jones, Berea Newydd, yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad at Hefina a Nia a’r teulu.

Mrs Katie Rosser

Kate, Katie Price, Katie Rosser a Sister Rosser, dyma sut roedd pobl yn ei hadnabod. Bu farw’n dawel ar 17 Hydref yng Ngherrig yr Afon yn 82 mlwydd oed. Fe’i ganed yn Nhy’n y Maes, yr ail hynaf o blant Robert ac Elinor Price. Symudodd y teulu wedyn i Wern, Waun Pentir, y tŷ cyntaf ar y chwith wrth ddod i’r pentref. Roedd y teulu yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Ysgoldy. Fe fynychodd ysgol y pentref, Ysgol Dyffryn Ogwen, ac yna mynd i Lerpwl i Ysbyty Alder Hay i gymwyso fel nyrs plant a thra yno cyfarfu â’i gŵr, y diweddar Ralph.

Buont yn byw am gyfnod yn Bootle ac yno y ganed Helen, ond yn 1956 symudasant yn ôl i Rhiwlas, byw yn y Wern am gyfnod, ac yna symud i 27 Bro Rhiwen ac yna cael merch arall, Nia. Bu’n gweithio yn Ysbyty Dewi Sant ac yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddarach ond yn 1980 cafodd Ralph strôc ddrwg a golygodd hyn y bu’n rhaid i Katie ddysgu gyrru car, ac fel y dywedodd Helen yn ei theyrnged, nid oedd yn ddreifar wrth reddf ond fe ymdrechodd yn galed i basio’r prawf gyrru.

Daeth amser i ymddeol yn y 90au, ac roedd hi a Ralph yn mwynhau crwydro, ac wrth eu boddau yn mynd allan i fwyta. Rhai blynyddoedd yn ôl, wedi iddi hithau gael strôc symudodd y ddau i fyngalo hwylus ym Mhenisarwaun. Ychydig o flynyddoedd ar ôl symud bu farw Ralph. Plant oedd ei diddordeb, plant y teulu, plant y pentref ac yn arbennig y plant oedd yn ei gofal yn yr ysbyty. Yn ddiweddar daeth yn nain i Jackson, plentyn Nia a’i gŵr.

Fel “Sister Rosser” roedd yn fawr ei pharch gan ei chyd-weithwyr a chan rieni y plant yn ei gofal. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor a’r Parch. Marcus Robinson yn gwasanaethu ac roedd y dyrfa niferus yno yn arwydd o’r parch tuag ati. Cafwyd teyrnged bersonol ac addas iddi ar y cyd gan Helen a’i brawd Dafydd. Hefyd darllenodd Nia “The Nurse’s Prayer”, yn addas iawn a Nia wedi dilyn yr un trywydd â’i mam. Rydym yn cydymdeimlo â Helen a Nia a’u teulu a hefyd â’i brodyr a’i chwiorydd.

Derbyniwyd rhoddion er cof amdani tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Diolch
Dymuna Hughie Hughes, 7 Lôn Ddŵr, ddiolch am yr holl anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn!

Mae Jean Hughes, Bryn Awel, yn ddiolchgar iawn i’w theulu, a hefyd i’w ffrindiau yn Nhalybont a Dyffryn Ogwen, am fod mor garedig wrthi ar ôl iddi dorri ei choes. Diolch yn arbennig Barbara Jones am ei holl gymwynasgarwch!

Brysiwch Wella
Gobeithio fod Mr. Chadwick, 1 Cae Bach, yn gwella ar ôl cael damwain i’w law.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Tach. 23: Miss Nerys Jackson, Caernarfon
Tach. 30: Parchg. W. H. Pritchard
Rhag. 7: Parchg. R. O. Jones
Rhag. 14: Oedfa Nadolig
Rhag. 21: Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Yr Ysgol Sul – Bore Agored
Ar Sul y Diolchgarwch, sef 19 Hydref, hyfryd oedd medru croesawu perthnasau rhai o’r plant i weld eu gwaith, ac i’w helpu hefyd yn ystod y bore. Roedd yn braf iawn cael eu cwmni! Diolch iddynt am ymateb yn hael i’n hapêl i ddod a chyfraniadau i’r Banc Bwyd a drefnwyd yn arbennig gennym ar gyfer tymor y Diolchgarwch.

Banc Bwyd
Yn ogystal ag ymateb yr Ysgol Sul, dymunwn ddiolch hefyd i aelodau’r Capel a’r Bwrlwm am ddod â chyfraniadau. Golygodd hyn fod dau lond bocs mawr wedi ei anfon at yr anghenus yn y gymdeithas!

Bwrlwm Bethlehem
Mae nifer o’r aelodau wedi bod yn brysur eto eleni yn llenwi bocus ar gyfer plant tlawd y Nadolig hwn – sef cynllun “Operation Christmas Child”. Diolch yn fawr iddynt i gyd!

Ffair Nadolig
Edrchwn ymlaen at gael eich croesawu i’n Ffair Nadolig flynyddol yn y festri a gynhelir eleni ar nos Fercher, 3 Rhagfyr, am 6.30yh.

Eglwys Maes y Groes

Drwg gennym glywed am farwolaeth Megan Hughes yng nghartref Ceris Newydd. Anfonwn ein cydymdeimlad at Myrddyn, Gwen, Nerys, John a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Phyllis Davies ar gyrraedd pen-blwydd arbennig ar 1af Tachwedd. Dathlodd yr achlysur yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy. Treuliwyd noson hwyliog a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Dymuna Phyllis ddiolch i bawb am eu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar y diwrnod.

Llongyfarchiadau hefyd i David ac Ann Pritchard ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Taliesyn Dafydd i Bethan a Tristan ar y dydd cyntaf o fis Tachwedd – yr un dyddiad a'i hen nain, sef Phyllis Davies.

Cynhelir Te Nadolig yn yr Ysgoldy ar brynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd rhwng 2.00yp a 4.00yp. Croeso cynnes i bawb.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Pen-blwydd arbennig
Hoffai Beryl Bryant, 12 Bro Infryn, ddiolch i'w theulu am wneud diwrnod ei phen-blwydd yn 70 oed ym mis Hydref yn ddiwrnod mor arbennig a bythgofiadwy. Mae'n anfon ei diolchiadau hefyd i'w ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch o galon i chi i gyd.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Huw a Siân, Penhower Uchaf, Caerhun ar enedigaeth Lydia Gwen ar 11 Hydref. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid sef Mair a James Griffiths, Pen y Bryn, Waen Wen.

Ysbyty
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Margaret Griffith, 21 Caerhun, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac sydd bellach yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Diolch
Dymuna Mair Griffiths, Pen y Bryn, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a phob cymwynas yn ystod yr unarddeg mis diwethaf ers ei damwain a'i llawdriniaeth, pan fu rai iddi ddibynnu yn fawr ar eraill am gludiant i wahanol lefydd. Gwerthfawrogr hyn yn fawr iawn.

Sefydliad y Merched
Mrs Mair Griffiths oedd yn llywyddu nos Fercher yr 8fed o Hydref. Braff oedd cael Mair yn ôl atom ar ôl ei llawdriniaeth ac wedi croesawu'r aelodau diolchodd yn gynnes iawn i bawb am eu galwadau ffôn, cardiau, blodau a'r ymweliadau. Llongyfarchodd Dylan, mab Nesta a Hefin, ar ei briodas yn ystod yr haf. Cyn mynd ati i drin a thrafod materion y sefydliad croesawyd Mair yn ôl i'n plith gan Dr Ann Illsley.

Cyflwynwyd i ni Mrs Gwen Jones oedd wedi dod atom i siarad am ei mam. Wel, pwy oedd ei mam? Dilys Bayliss !

I ni ddarllenwyr y Daily Post (y dudalen llythyrau) roedd yr enw yma yn canu sawl cloch. Roedd yn enw adnabyddus iawn yn y byd barddoni, cyfieithu ysgrifenedig a llawer maes arall. Mae rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â'i gwaith a'r cyfraniad a wnaeth ond faint ohonom sy'n gwybod am ddyddiau cynnar y wraig ddawnus a medrus hon? Dyma ran o'r stori a gawsom gan ei merch, Gwen. Daeth teulu Dilys yn wreiddiol o Wexford yn yr Iwerddon, pell yn ôl yn yr ail ganrif ar bymtheg. Glaniodd saith brawd ar y traeth yn Aberdaron ac mi wnaethon nhw ymgartrefu yma a thraw yng Nghymru. Daeth un ohonynt i ardal Dinorwig, priodi a chodi tŷ unnos uwchben y pentref. Magwyd teulu, a sawl cenhedlaeth wedyn daeth Dilys a'i brawd i'r byd. Cafodd Dilys ei geni yn y flwyddyn 1912. Symudodd y teulu i lawr i Lanberis yn 1917 ac ymgartrefu yn Meirionfa.

Yn eneth 17 oed penderfynodd Dilys fynd i nyrsio i Lundain i un o gartrefi Dr Barnardos. Roedd yn waith hynod galed ac oriau hir dros ben. Bu ar ddyletswydd nos am 5 mis heb weld fawr o olau dydd ac o ganlyniad, collodd ei golwg mewn un llygad. Bu rhaid dychwelyd i Lanberis ar ôl chwe blynedd i weithio yn y siop leol. Roedd yn dipyn o siom ond bu'n ffyddlon iawn i elusen Dr Barnardos am weddill ei bywyd gan gasglu arian yn rheolaidd. Cafodd hyn ei gydnabod yn 1986 gyda gwahoddiad i Chatsworth House i gyfarfod â'r ddiweddar Dywysoges Diana.

Bu'n brysar ar hyd ei hoes yn ysgrifennu a chyfrannu erthyglau i'r papur newydd, yn cyfansoddi a chyfieithu. Gwelwyd ei gwaith ar y rhaglen Songs of Praise yn 1993 yn Eglwys St Padarn sef cyfieithiad o 'Dros Gymru'n Gwlad (geiriau Lewis Valentine) a ddangoswyd ar y BBC! Efallai mai'r geiriau 'Cofiaf Amdanat Ti' yw'r rhai mwyaf teimladwy i ni eu cofio. Bu farw Dilys Bayliss dri mis cyn cyrraedd ei phen-blwydd yn gant oed. Dilys Bayliss. Cofiwch Amdanat Ti.

Clwb Cant y Ganolfan

£20 - 141 - Elfed Roberts
£10 - 87 - Ifor P Williams
£5 - 67 – Anita

Mynydd Llandygái

Theta Owen
Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái.
☎ **600744**

NEGES BWYSIG

Bydd y ffordd rhwng
Mynydd Llandygái a
Deiniolen
ar gau o 24 Tachwedd
am oddeutu 6 mis.
Hyn o ganlyniad i'r
gwaith o osod pibellau
dŵr newydd o
Lyn Marchlyn Bach i'r
Gwaith Dŵr ym
Mynydd Llandygai.

Clwb y Mynydd

Cafwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni'r Canon Idris Thomas, gyda phawb wedi mwynhau ei ddarlith yn fawr. Yn dilyn cafwyd lluniaeth a raffl.

Bydd y trip yn mynd i Gaer ar 19 Tachwedd, a'r Cinio Nadolig yn cael ei gynnal yn Rose Torr, Llandudno, ar 3 Rhagfyr.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes,
Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys Sant Cedol

Gwellhad
Fel Eglwys hoffwn ddymuno gwellhad buan i Miss Margaret Griffith, Caerhun, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch Margaret a brysiwch wella!

Ffair Nadolig
Bydd ein Ffair Nadolig eleni yn cael ei chynnal ar brynhawn Sadwrn 29 Tachwedd yn y Ganolfan, Glasinfryn am 1.30 y prynhawn. Bydd amrywiol stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gwasanaethau

Tach. 16: Cymun Bendigaid
Tach. 23: Boreol Weddi
Tach. 30: Cymun Bendigaid (10.30 y.b.) Eglwys Crist, Glanogwen. (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).
Rhag. 7: Gwasanaeth Teuluol - "Cristingl".
Rhag. 14: Gwasanaeth "Naw Lith a Charol".

Dechreuir am 9.45 y.b.
Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir y "Ffair Nadolig" bore Sadwrn, 22 Tachwedd rhwng 11.00 a 2.00 o'r gloch. Unwaith eto bydd amrywiaeth o stondinau a bydd cawl a bara ar gael am £2 y pen dros yr awr ginio. Ymunwch a ni, naill ai am luniaeth neu i wneud ychydig siopa Nadolig.

Oes oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref dros Ŵyl y Nadolig cysylltwch â'r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Gwasanaethau'r Sul

Pob Gwasanaeth am 9.45yb

23.11.14
Boreol Weddi
30.11.14
Gwasanaeth ar y cyd - Sul 1af yr Adfent 10.30y.b yn Eglwys Crist Glanogwen - yr unig wasanaeth yn y plwyf.
30.11.14
Gwasanaeth gydag Ysgol Gynradd Rhiwlas am 5.00 y.h
07.12.14 Cymun Pawb
14.12.14 Boreol Weddi
21.12.14 Cymun Bendigaid
24.12.14 Cymun Nadolig am 9.30yh
28.12.14 Boreuol Weddi
Croeso cynnes i bawb i fynychu'r gwasanaethau

Clwb 100 Mis Hydref

1af Rhif 60 Laura Hosker
Deiniolen
2ail Rhif 30 Mair Roberts
Rhiwlas
3ydd Rhif 38 Huw Redvers-Jones, Llangristiolus

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at berthnasau’r diweddar Hubert Griffith, 46 Bro Syr Ifor, sef Hefin, Alistair ac Elfed a’r teulu oll.

Nain
Llongyfarchiadau i Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, ar ddod yn nain unwaith eto, o ganlyniad i enedigaeth Alys Rose i Rhian a Chris ym mis Medi.

Gair o ddiolch
Dymuna Edward Reece a Joyce Jones a’r teulu, 7 Dob, Tregarth, ddiolch o galon i bawb a anfonodd eu cydymdeimlad atynt ar ffurf llythyr, cardiau, rhoddion ac ymweliadau yn ystod cyfnod o brofedigaeth o golli chwaer, sef Deana Price, Tros y Waen, Pentir. Trosglwyddwyd y rhoddion er cof am Deana i Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd.

Cartref newydd
Croeso i deulu newydd sydd wedi symud i’r pentref o Fraichmelyn, Bethesda, sef Dr. Jonathan Irvine, ei wraig Viv a’u mab bychan Tomos Llion. Maent wedi symud i Cae Glas, 8 Tal y Cae, a dymunwn eu croesawu yn gynnes i’n plith. Mae Jonathan yn ddarlithydd Ffrangeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor ac er ei fod yn dod yn wreiddiol o’r Alban mae wedi dysgu Cymraeg yn rhugl. Cafwyd cyfle i’w glywed ar y radio yn ddiweddar yn cael ei holi gan Dewi Llwyd ac ar raglen deledu mewn sgwrs gydag Elen Wyn yn ymwneud â’r refferendwm yn yr Alban. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Capel Shiloh

Colli aelod
Cafodd pawb o’r aelodau eu brawychu pan ddaeth y newyddion annisgwyl am farwolaeth un o aelodau selocaf Shiloh sef Herbert Owen Griffiths, Bro Syr Ifor. Bu gan deulu Herbert gysylltiad agos iawn â Chapel Shiloh ers blynnyddoedd lawer, sef teulu niferus Cerrig Llwydion. Cydymdeimlwn â bechgyn Herbert, sef Hefin, Alistair ac Elfed a’i ferched yng nghyfraith Pat a Claire, ei wyrion a’i wyresau ac yn wir yr holl deulu yn eu galar. Cynhaliwyd yr angladd yn Shiloh ddydd Gwener, 24 Hydref, yng ngofal y Parchedig Gwynfor Williams, yn absenoldeb y Parchedig Philip Barnett a oedd yn methu a bod yn bresennol Bydd yn chwith iawn gweld sedd Herbert yn wag ond diolchwn i gyd ein bod wedi cael y fraint o’i adnabod.

Profedigaeth
Daeth profedigaeth i ran Mrs Christine Morris Jones a’r teulu, Lliwedd, Tal y Cae. Mae Christine yn gweithio’n galed gydag aelodau’r Ysgol Sul a chydymeimlwn gyda hi a’r holl deulu yn ardal Penllyn yn eu profedigaeth o golli nai, sef Gareth o Parc y Bala, fu farw yn eithriadol o ifanc yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Gwasanaeth y Diolchgarwch
Dathlwyd y Diolchgarwch yn Shiloh fore Sul, 19 Hydref, gydag aelodau’r Ysgol Sul a’u rhieni yn cymryd rhan. Thema’r gwasanaeth eleni oedd “Diolch am y Beibl” ac yn arbennig am waith Mari Jones a Thomas Charles. Yn ystod Mis Hydref agorwyd Canolfan newydd yn Eglwys Llanycil, ar lan Llyn Tegid, y Bala, gan Gymdeithas y Beiblau a gobeithir cael cyfle i ymweld â’r ganolfan yn y dyfodol agos. Braf oedd cael croesawu y Parchedig Ddr. Huw John Hughes, Porthaethwy i’r oedfa i sôn am bwysigrwydd y Beibl ac am waith diflino Mari Jones a Thomas Charles.

Nos Lun, Hydref 20 roedd oedfa arbennig y Diolchgarwch yng ngofal y Gweinidog, y Parchedig Philip Barnett gyda Mr Wyn Williams, Tyddyn Dicwm yn cyfeilio ar yr organ

Bedydd
Pnawn Sul, Hydref 5, bedyddiwyd Efnisien, sef mab bychan Gwenan a Dylan Efans, Garw, Tregarth, a brawd bach Siwnamis, Caleb Lleu ac Elysteg. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog a braf iawn oedd cael croesawu aelodau’r Ysgol Sul a’u rhieni yn ogystal â theulu Efnisien i’r oedfa.

Oedfaon Shiloh

Ysgol Sul am 10.30
Oedfa 5.00 oni nodir yn wahanol

Tachwedd 16 Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon

Tachwedd 23 Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Tachwedd 30 Diacon Stephen Roe

Rhagfyr 7 Parchedig Philip Barnett

Rhagfyr 14 Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul am 4.00 o’r gloch.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Tachwedd 23 Cymun Bendigaidd.
Tachwedd 30
Gwasanaeth yn Sant Tegai am 10.30.
Tachwedd 30
Gwasanaeth Carolau’r Adfent am 5.00
Rhagfyr 07 Boreol Weddi
Rhagfyr 14 : Cymun Bendigaidd.

Pob gwasanaeth am 9.45yb oni nodir yn wahanol.

Clwb Cant Hydref

£10	48	Sarah Griffiths
£10	36	Patricia Jones
£5	85	Val Hayward

Te Nadolig
Rhagfyr 11eg am 2.00 o’r gloch. Croeso i bawb alw am banad a mins pei.

Gwellhad
Fel Eglwys hoffwn ddymuno gwellhad buan i Miss Margaret Griffith, Caerhun, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch Margaret a brysiwch wella!

Pencampwr - Ennill Tair Treiathlon



Llongyfarchiadau i Ewan Brown o Ben y Bronnydd, ar ei lwyddiant ysgubol yn ddiweddar yn ennill tair treiathlon yn y gyfres “Always Aim High”. Ef oedd y cyntaf dros y llinell yn ras Treiathlon yr Eira ar Foel Siabod, yna Ras y Tywod ym Môn, ac yna fis yn ôl yn Ras y Llechi yn Llanberis. O ganlyniad mae wedi ennill taith i’r Caribi i gystadlu yn ras ddethol Treiathlon Nevis y mis yma.

Ewan yw pencampwr amatur Prydain ar hyn o bryd, ac rydym yn ymfalchïo yn ei gamp ac yn dymuno’n dda iddo eto yn y dyfodol. Erbyn hyn mae’n gweithio fel peiriannydd yng Nghaeredin ac anfonwn ein cofion ato.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Medi

27 Sulwen Jones	£15
8 Margaret Jones	£10
22 Glyn Davies	£5

Mis Hydref

19 Arthur Williams	£15
41 Goronwy Roberts	£10
8 Margaret Jones	£5

Cangen Tregarth o Ferched y Wawr

Rhodddwyd croeso gan ein Llywydd, Alison Carden, i ddwy o ferched yr ardal sydd wedi cychwyn busnes dan yr enw ‘Popeth Neis/Dwylo Prysur’ sef Michelle Rowlands a’i mam Margaret Swift. Mae Michelle wedi arbenigo mewn cynhyrchu sebon o bob lliw, siâp ac arogl ac mae’i stondin yn werth ei gweld. Bron iawn na hoffech fwyta’r danteithion y mae’n eu paratoi!! Eglurodd y broses o wneud y sebon a’r hyn a’i hysgogodd i wneud y gwaith yn y lle cynta. Mae’n gwerthu’r cynnyrch ym Marchnad Ogwen ac yn cael cryn lwyddiant a boddhad gyda’r gwaith. Llongyfarchwyd Michelle ar ei phriodas gyda Dylan Rowlands yn Las Vegas yn ddiweddar.

Yn dilyn sgwrs agoriadol Michelle daeth Margaret Swift ymlaen i ddangos y cynnyrch bendigedig y mae hi yn ei gynhyrchu yn ei chartref, sef crosio amrywiaeth eang o ddilladau, blancedi, bagiau etc. Dysgodd grosio gan ei Nain ac mae hithau wrth ei bodd yn creu yr amrywiol eitemau sydd hefyd yn cael eu gwerthu ym Marchnad Ogwen yn fisol.

Cafwyd cyfle i brynu gwaith Michelle a Margaret yn ystod y noson.

Fel Cangen anfonwn ein cofion at Glenys Clark, Ffynnon Wen, sydd wedi syrthio a thorri ei chlun tra roedd ar seibiant ym Mhlas Ogwen. Cofion cynnes atoch Glenys, a brysiwch yn ôl atom i’r gangen. Ar Dachwedd 5, croesawyd un o drigolion y pentref i Festri Capel Shiloh, sef Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, sy’n enedigol o’r Gerlan. Mae Gerallt yn gweithio yn yr Adran Arlwygo yng Ngholeg Menai a chafwyd noson wrth fodd pawb yn ei gwmni. Llywydd y noson oedd Myfanwy Harper a chroesawodd Gerallt yn gynnes i ganol y merched. Yn ystod y noson bu’n paratoi seigiau bychan i gychwyn pryd o fwyd, sef Canapes. Roedd wedi paratoi yn fanwl a chafodd pawb oedd yno wledd o seigiau sawrus amrywiol. Dilynydd hynny gyda Proffitarols bendigedig yn llawn hufen a siocled ac aeth pawb adra yn wên o glust i glust wedi noson werth chweil. (Anghofiwyd am y Pwysau am un noson !). Diolchodd Angharad Huws i Gerallt am fynd i’r fath drafferth ac am baratoi bwydydd rhagorol ar ein cyfer.

Bydd y Gangen yn dathlu’r Nadolig gyda phryd o fwyd yng Nghlwb Golff Caernarfon ar 1 Rhagfyr. Am fwy o fanylion cysyllter ag Alison ar 600946 neu Myfanwy ar 362139.

LLYFRGELL BETHESDA Y SIALENS DDARLLEN, HAF 2014

Llongyfarchiadau i bob un o blant y Dyffryn, oedd wedi llwyddo i gwblhau y Sialens Darllen dros wyliau’r Haf y flwyddyn yma eto..76% o’r rhai oedd wedi ymuno! Cofiwch gario ’mlaen â’r gwaith da blant...a defnyddiwch eich Llyfrgell!

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái
☎353886

Gwaeledd

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed fod Mrs Iona Jones, “Dyma Fo”, Pentre Llandygái, wedi gorfod treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae hi gartref erbyn hyn ac yn gwella yn ara deg – llwyr wellhad i chi Iona. Rydym yn meddwl hefyd am Ernie a Nerys Coleman. Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall. Betty Williams a Dorothy Proudley Williams sydd wedi bod yn wael ers amser maith – anfonwn ein dymuniadau gorau atoch i gyd.

Priodas

Yn Gretna Green, ddydd Gwener, 24 Hydref, priodwyd Tina, merch Merfyn a Liz Jones, 21 Pentre Llandygái a Jamie Bradford, sy’n enedigol o’r Alban. Roeddem yn falch o glywed fod pob dim wedi mynd yn iawn a Jacob wedi mwynhau pob munud o’i amser yno. Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd i Tina a Jamie.

Eglwys Sant Tegai

Marwolaeth

Ar 4 Hydref, yn sydyn yn ei gartref, 16 Llys Geraint, Tan y Bryn, Bangor, bu farw Alan Griffith yn 72 mlwydd oed; mab y ddiweddar Mrs May Owen a thad annwyl a brawd hoff i Carol ac Elwyn. Cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd Mercher, 15 Hydref yn Eglwys Sant Tegai ac yna yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn ag Emyr, Carol, Elwyn a’r teulu oll yn eu galar

Cofio’r Rhyfel Byd Cyntaf

Dros y pum mlynedd nesaf bydd aelodau Eglwys Sant Tegai yn cofio yn eu gweddïau am y milwyr o’r pentref a’r ardal a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Fore Sul, 26 Hydref, buom yn cofio am yr Is-gapten, yr Anrhydeddus Charles Douglas Pennant a fu farw ar 29 Hydref 1914, a hefyd ei gefnder, yr Is-gapten, yr Anrhydeddus Alan George Sholto Douglas Pennant a fu farw yr un diwrnod.

Mae Charles wedi ei gladdu ym mynwent Perth (China Wall) yng Ngwlad Belg ac mae enw Alan i’w weld yn Ypres ar y Menin Gate yng Ngwlad Belg.

Diolch i Rhian am ddarllen y gweddïau y bore hwnnw mor deimladwy a hefyd i John Bagnall am ei ymchwiliad trylwyr.

Gwaeledd

Rydym yn anfon ein dymuniadau anwylaf at Ben Cramb, Jane Couch, Olwen Latham, Jackie Williams, Audrey McSorley, Marguerite Maddox a phawb arall sy’n wael. Brysiwch wella.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Callum Metcalf a fydd y dathlu ei ben blwydd ar 17 Tachwedd. Llongyfarchiadau iddo hefyd am lwyddo mor anrhydeddus yn ei arholiadau Lefel Uwch – cael tair A a chael ei dderbyn i Brifysgol Manceinion i astudio meddygaeth – pob hwyl i ti yn y dyfodol, Callum.

Gŵyl y Cynhaeaf

Fore Sul, 5 Hydref, yn Eglwys Sant Tegai, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad y Ficer, y Parchedig John Matthews, gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn hyfryd a diolch i’r merched am eu cymorth. Diolch i John ac i bawb arall a gymerodd ran yn y gwasanaeth hefyd. Ymlaen â ni wedyn i Westy Bulkely, Biwmares, am ginio. Diolch o galon i Phyllis, Muriel a Bethan am drefnu popeth; roedd yn braf cael cyfarfod a chael amser am sgwrs a rhoi’r byd yn ei le.

Gobeithio i Phyllis gael pen-blwydd hapus ar y cyntaf o Dachwedd gan ei fod yn ben-blwydd arbennig iawn iddi.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â John ac Eleri Richards a’r teulu yn eu colled o fam a nain hoffus, sef Mrs. Mair Richards, gynt o Braichmelyn. Bu farw Mrs. Richards yn 94 mlwydd oed mewn cartref yn y Bontnewydd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr. a Mrs. Hugh Jones, 2 Pen y Graig, hwythau wedi colli chwaer annwyl, sef Mrs. Mair Sullivan, Glanogwen. Mae yr un cydymdeimlad yn mynd at Terry a June a’r teulu, a Tony a Rachel a’r teulu sydd wedi colli modryb.

Gwellhad

Braf yw gweld fod Catrin Aran, 12 Caer Berllan, wedi gwella ac allan erbyn hyn.

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd y rhai a enwir isod yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent trwy gyfrwng y Llais yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i’w holl ffrindiau, teulu a chymdogion:

Mrs. Augusta Williams, 7 Bron Arfon, Llanllechid.

Mrs. Nance Owen, 8 Rhes William, Bethesda.

Thomas a Heddwyn Jones, Cilan, Rhos y Coed, Bethesda.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick


Bethesda

11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

Taith 11 – Rachub a rhan o’r Lôn Goed



Cychwyn o Blas Ffrancon a cherdded drwy’r fynedfa gan droi i’r dde i fyny Lôn Newydd. Ar ôl rhyw hanner can llath, croesi’r ffordd ac anelu am lwybr Lôn Bach Odro. Dilyn y llwybr heibio Ysgol Llanllechid a chadw i’r dde heibio tai Maes Bleddyn nes cyrraedd ffordd Rachub. Troi i’r dde i fyny am y sgwâr a throi i’r chwith yn y sgwâr gan basio’r llythyrdy.

Cerdded ymlaen heibio stad Bron Arfon nes cyrraedd y cae chwarae. Gyferbyn â cheg Lôn Bryn Pistyll fe welwch arwydd llwybr cerdded ar y chwith. Troi i’r chwith yma a dilyn y ffordd i lawr i gyfeiriad fferm Talysarn. (Gall y ffordd fod yn fwdlyd a chyda phyllau dŵr wedi glaw). Ewch ymlaen heibio’r buarth nes cyrraedd y Lôn Goed.

Troi i’r chwith yma a cherdded yn ôl i gyfeiriad Bethesda. Byddwch yn ofalus gan fod y lôn yn gul. Cofiwch wrando am sŵn moduron. Cerdded am ryw ddeng munud ac fe ddowch i groesffordd Ffordd Coetmor a’r lôn i Rachub. Troi i’r dde a cherdded i lawr heibio’r fynwent am Fryn Bella. Gall y ffordd yma fod yn eithaf prysur, felly “pwyll bia hi”. Ar ôl cyrraedd y groesffordd ym Mryn Bella, croesi’r A5 a cherdded i gyfeiriad Tregarth.

Byddwch ger Melin Coetmor mewn dim. Gyferbyn â’r Felin fe welwch fynediad i Lôn Las Ogwen. Ewch drwy’r adwy a dilyn y lôn yn ôl am Fethesda. Wedi cerdded am bron i 15 munud a mynd trwy’r giataiu, fe ddowch i olwg y caeau rygbi a ffens bren. Mae gennych ddewis yma.

Mae’r dewis cyntaf ychydig yn fyrrach ac yn osgoi allt serth. Cadwch i’r chwith, i lawr stepiau a thrwy giât werdd a chadw i’r chwith o dan yr hen reilffordd gan ddod allan yn y lôn bost. Troi i’r dde ar y lôn bost a cherdded nes cyrraedd cae chwarae “Cae Gas”. Croesi’r lôn bost a cherdded i fyny’r llwybr sy’n mynd trwy’r cae chwarae nes cyrraedd y lôn ger y Gyfnewidfa Ffôn. Troi i’r chwith a dilyn y lôn yn ôl i Blas Ffrancon.

Gyda’r ail ddewis, cerddwch heibio’r caeau rygbi gan ddilyn Afon Ogwen i ben draw’r llwybr. Ewch ymlaen am y stryd gan droi i’r dde heibio Londis. Ger y gysgodfa fysiau croeswch yr A5 a cherdded i fyny Allt Caffi - sydd yn serth. Ar ben yr allt troi i’r chwith gan gerdded heibio Ysgol Dyffryn Ogwen a stad Erw Las. Wedi cyrraedd croesffordd Lôn Newydd, troi i’r dde ac i fyny yn ôl am Blas Ffrancon.

Math o daith: Llwybrau a rhyw gymaint ar y ffordd. Gall ffordd fferm Talysarn fod yn wlyb.

Pellter: Dewis 1 – tua 3 milltir a chwarter.
Dewis 2 – bron i 3 milltir a hanner.

Amser: Tuag awr a hanner – tua chwarter awr yn llai yn Dewis 1.

Offer: Esgidiau addas (er bod wyneb da ar y llwybrau).

Cofio!! Bag plastig a menig - cryn dipyn o sbwriel ar rannau o’r lôn beics erbyn hyn gan fod rhai modurwyr yn taflu eu sbwriel dros y clawdd!!

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen



Ar nos Wener, Hydref 10fed yn y Clwb Criced a Bowlio cynhaliwyd noson o adloniant gan y gangen yng nghwmni Dafydd Iwan. Trefnwyd lluniaeth dan ofal Alwenna Puw. Roedd Dafydd yn canu llawer o’r hen ffefrynnau oedd wrth fodd y gynulleidfa, ac yn wir galwyd ef yn ôl i’r llwyfan lawer gwaith ac yntau yn plesio bob tro. Mae cynnal nosweithiau cymdeithasol yn dod yn ran bwysig o waith y gangen.

Yn ein cyfarfod diweddaraf cafwyd gwybodaeth bod bin baw ci bellach wedi ei leoli ar y llwybr rhwng Ffordd Pant ac Ysgol Abercaseg. Does dim ond gobeithio rwan y bydd perchnogion cŵn yn ei ddefnyddio a gwella’r llwybr o flaen yr ysgol gan bod nifer o gwynion ynglyn â baw ci yma.

Mae ein cynghorydd sir lleol yn boenus iawn eto ynglyn â’r biniau gorlwythog sydd tu allan i fflatiau ar y Stryd Fawr sydd yn anharddu yn ogystal â bod yn fater iechyd a diogelwch. Dywedodd Ann Williams hefyd bod golwg ym maes parcio Cae Star ac mae swyddogion o Gyngor Gwynedd wedi bod yn ymweld a gobeithir medru ei dacluso.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Dafydd Meurig am gael ei ethol yn aelod cabinet o Gyngor Sir Gwynedd.

Roedd y gangen yn falch o glywed bod merch ifanc leol wedi ei phenodi i swydd lawn amser am gyfnod yn Siop Ogwen.

Mae Balchder Bro yn barod gyda’r eryrod eira,..... rhag ofn! Llongyfarchwyd Neville ac Angharad ar ddathlu eu priodas aur ym mis Hydref.

Dilynwch ni ar trydar neu Plaid Cymru ar y gweplyfr neu ar y wê.

Rhoi’r Atodiad Dathlu Deugain Oed yn y Llais



Daeth criw ardderchog i Ganolfan Cefnfaes i blygu’r Llais ar nos Iau 16 Hydref. Dyma dri ohonynt :- Elfed Bullock, Andre Lomozik a Derfel Roberts.

Côr Meibion y Penrhyn

Daeth tymor y cyngherddau i ben am eleni gydag ymweliad ddechrau'r mis i Henllys ger Biwmares. Er mai lle cymharol fychan sydd yn yr hen blasty mae'r cynulleidfaoedd bob amser yn gynnes ac yn hynod werthfawrogol o gyflwyniadau'r côr. Mae mynd da ar 'Anthem,' CD ddiweddaraf y côr yno fel yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ac mae cyfanswm gwerthiant y CD erbyn hyn yn rhai miloedd. Os nad ydych wedi cael eich copi chi ohoni mae ychydig ar ôl drwy aelodau'r côr – mynnwch un fel anrheg Nadolig i chi eich hun neu i aelod arall o'r teulu. Mae'r côr hefyd yn lwcus iawn fod gennym unawdwyr talentog yn barod i ganu yn ein cyngherddau. Dymunir cydnabod cyfraniad rhai fel Raymond Roberts, Hywel Thomas a John Outram i lwyddiant ein nosweithiau ac yn wir i'r holl swyddogion sy'n rhoi oriau o lafur ac o amser er lles y côr.

Cyngerdd gyda Band y Black Dyke ym Mis Mehefin
Mae'r trefniadau i gynnal cyngerdd yn Feniw Cymru, Llandudno gyda band pres enwocaf y byd yn mynd yn eu blaenau. 20 Mehefin 2015 yw'r dyddiad sydd angen i chi ei roi i

mewn yn eich dyddiaduron. Mae hwn yn mynd i fod yn un o uchelbwyntiau calendr y côr am y flwyddyn nesaf ac yn wir i Ogledd Cymru gyfan, oherwydd mae'r Black Dyke o Queensbury ger Bradford yn Swydd Efrog yn fand sydd wedi ennill gwobrau lu eleni am safon ei berfformiadau. Mae'n cael ei gydnabod fel y band pres gorau yn Ewrop os nad yn y byd. Bydd y tocynnau ar gael yn Feniw Cymru a chan aelodau'r côr am bris yn amrywio o tua £17.50 i £20. Bargen am gael gwrando ar fand o'r safon arbennig hwn.

Mynd i'r America
Ddiwedd yr haf nesaf bydd yr aelodau yn troi i gyfeiriad yr Unol Daleithiau unwaith eto. Rydyn ni'n mynd ar wahoddiad trefnwyr yr Ŵyl Gymreig yng Ngogledd America a byddwn yn canu yn Washington, Efrog Newydd, Glens Falls a Columbus, Ohio. Dyma'r trydydd tro i ni gael gwahoddiad i fynd drosodd i'r ŵyl ac mae cysylltiadau wedi eu gwneud â chyfeillion o Poultney, Vermont a Granville, Talaith Efrog Newydd sy'n edrych ymlaen at ein cael yno i ganu iddynt unwaith eto. Mae'r holl weithgarwch hwn yn tystio i lwyddiant y côr o dan arweiniad brwdfrydig a bywiog Owain Arwel a Fran Davies.

Cymeriadau'r Côr



Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.
Yr aelod y mis hwn yw Rheinalt Davies o Hen Barc, sy'n actor o ran ei alwedigaeth.

- 1 – **Be' ydy dy enw llawn?** - Rheinalt Wyn Davies
- 2 – **Oed?** - 22
- 3 – **Lle wyt ti'n byw?** - Hen Barc, Bethesda
- 4 – **Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** – Un o Fethesda - fe'm ganwyd yn ysbyty Dewi Sant, Bangor!
- 5 – **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** - hoffi cwmni, un sy'n canu yn y bath, hael.
- 6 – **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** – Ers 2012
- 7 – **Pa lais wyt ti?** - Tenor cyntaf
- 8 – **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** – Roedd fy amser efo Glanaethwy yn dod i ben ac ar ôl tri mis roedd hi'n chwith ofnadwy peidio bod yn aelod o gôr!!
- 9 – **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** – ‘Gwahoddiad’ neu ‘Speed Your Journey’!
- 10 – **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** - Mae'n agos iawn iawn rhwng Elvis Presley a Roy Orbison.
- 11 – **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** - Gormod ohono yn achos gur pen! Dwi'n mynd yn hen o flaen fy amser... Dwi'n dueddol o wrando mwy ar Radio 2 bellach!!
- 12 – **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?** - Canu ar y cae cyn gêm Cymru a De Affrica flwyddyn yn ôl ac yn edrych ymlaen yn aruthrol i fynd i 'Merica!
- 13 – **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** - Cefnogi pêl droed (Lerpwl a Bangor) mynd i'r sinema a chwarae Pŵl (i'r Sior, Bethesda)!
- 14 – **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** - Canu ‘You'll never walk alone’, i brofi i Arwel, ein bod ni, gefnogwyr Lerpwl yn gwybod mai allan o Carousel ma' hi ac mai nid Gerry Marsden sgwennodd hi!

Am ymuno â chôr ?

Ar drothwy tymor newydd mae Hogia'r Ddwylan yn awyddus i gynyddu nifer aelodaeth y côr.
Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sy'n hoffi canu a chymdeithasu i ymuno â ni.



I gysylltu ffoniwch John ar 01248724159, neu gallwch alw heibio ar noson ymarfer, sef Nos lau yn Festri Capel Mawr, Porthaethwy am 7.30pm

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Cystadleuaeth NEWYDD #PethauBychain

Wyt ti rhwng 14 a 25?	Dyddiad cau: 30
Eisiau ennill Iphone 6?	Tachwedd 2014
Be' am roi tro ar gystadleuaeth #PethauBychain	Twitter: @iaithfyw
	Facebook/Cymraeg

Dyma be' sydd angen i ti wneud:
Tynna lun neu gwna fideo o'r #PethauBychain 'rwy't ti'n eu gwneud yn y Gymraeg e.e, fideo ohonot ti a dy ffrindiau yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn siop, mewn gig, gêm rygbi/ pêl droed neu'n cymdeithasu...
Rho dy lun / fideo ar Facebook neu Twitter a chofia gynnwys #PethauBychain yn dy neges.

O’r Cyngor

Cyngor Pentir

Yn eu cyfarfod yn ystod mis Hydref rhoddodd y Cynghorydd R. Gwynedd Roberts adroddiad o'i ymweliad â gwaith trin carthion Treborth gyda swyddog o Ddŵr Cymru.

Nododd fod Dŵr Cymru yn bwriadu gwario'n helaeth yn ystod y flwyddyn nesaf i wella'r ddarpariaeth yn Nhreborth. Maent hefyd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda mudiadau a phobl leol i adrodd ar y cynnydd a wneir ac i drafod unrhyw broblemau a godir.

Nodwyd fod coeden fechan wedi ei phlannu yn y Fynwent Newydd ym Mhentir a hynny heb ganiatad neb.

Cytunwyd y dylid gwneud yn glŷr yn rheolau'r fynwent na ellir plannu dim yn y fynwent heb ofyn yn gyntaf am ganiatad y Cyngor.

Nodwyd hefyd fod wal y fynwent oedd wedi dechrau disgyn wedi ei thrwsio.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Mrs Mair Leverett yn y gadair.

Derbyniwyd cwynion oherwydd bod rhai o'r bysiau ysgol yn cyrraedd yn hwyr a phenderfynwyd cysylltu gyda'r cwmni bysiau.

Derbyniwyd cwynion hefyd oherwydd diffyg gweledd gerllaw Pont Coetmor ac am oergell sydd wedi cael ei lluchio. Byddir yn hysbysu'r Cyngor Sir gan y gall fod yn beryglus i blant.

Derbyniwyd gwybodaeth y byddir yn gwahardd aros ar y cilfannau gerllaw cyffordd Treborth a chyffordd Llandygái ar yr A55.

Gall y grwpiau lleol wneud cais am grant o hyd at £500 drwy Grŵp Cynefin. Gellir cael mwy o fanylion ar y ffôn, 01286 889214 neu 01286 889222.

Mewn ymateb i gais gan Gyngor Gwynedd parthed darpariaeth gogyfer â phobl hŷn penderfynwyd datgan y dylid cael dewis ehangach o lety ar draws y sir a hefyd pwysleisio y dylid cadw'r trefniadau gofal dydd a gofal ysbaid.

Byddir yn cysylltu â Swyddog Cŵn y Cyngor Sir mewn ymateb i ragor o gwynion am gŵn yn baeddu.

Pwy Sy’n Cofio Ddodoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau
1896 - 1902

1896

- 11/01/1896: Gosod carreg sylfaen yr Ysgol Sir gan Gertrude Jessie Douglas Pennant, Arglwyddes Penrhyn. ‘Mae’n adeilad sydd yn addurn i’r ardal,’ meddai’r Parch. J. Owen yn Cymru, Ionawr 15, 1898, ‘Saif ar lecyn uchel, agored, a mynyddoedd Eryri yn gwylid drosti ac yn ceisio perswadio’r gwynt i fod yn dyner wrthi.’
- 06/1896: 111 o lyfrau Llyfrgell Ysgol Sul Capel Bethesda wedi ‘mynd ar goll’ ers 1866. Yn eu plith: Hynafiaethau Llanllechid a Llandegai, Hugh Derfel Hughes.
- 30/09/1896 (Mercher): Streic yn Chwarel y Penrhyn. ‘Diswyddwyd 71 o weithwyr am iddynt weithredu’n flaenllaw dros eu cyddynion.’
- Adeiladu ysgoldy, ar gost o £228, y tu cefn i Gapel Peniel, Mynydd Llandegai.

- Codi Capel presennol Shiloh, Tregarth. Costiodd £2375/8/6. Ei agor: 01/01/1897.
- 1897**
- 24/08/1897: Agor Ysgol Gynradd Tregarth.
 - 25/08/1897: Chwarelwyr y Penrhyn yn dod â’u streic 11 mis i ben.
- 1898**
- Codi Rhes Elfed, Bethesda.
 - 19/02/1898: Geni Miss Jennie Thomas (cyd-awdur Llyfr Mawr y Plant), ym Mhenbedw; daeth yn athrawes i Ysgol y Cefnfaes yn 1921.
 - Richard Thomas Jones yn dod yn Ficer (y trydydd) ar Eglwys Glanogwen. Bu’n Ficer yno tan ei farw ym 1917. Hwn oedd y Canon a bortreadwyd yn y Ficerdy gan Caradog Prichard yn Un Nos Ola Leuad.

Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ddechrau’r ugeinfed ganrif

- Adeiladu ‘Lôn Newydd’ o Groeslon Coetmor (neu efallai o Gapel Bethania) i gyfeiriad Hen-barc.

Tua dechrau’r ugeinfed ganrif

- Cyflenwad dŵr drwy bibellau yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor Dinesig ynghyd â system garthffosiaeth (a gwaith trin carthion yn Nôl-goch).

1900-1903

- Streic Fawr y Penrhyn.
- 1900**
- Cyngor Dinesig Bethesda yn penderfynu cynnal ei holl fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn, Hydref 10, 11, 12 a’r 13, 1900: Y Grand Bazaar (neu Nodachfa Fawreddog) yn Ysgol y Sir er mwyn clirio’r ddyled o £1500 a safai o hyd ar ôl codi’r Ysgol.

I’w barhau

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

“GWERTH CYMUNED YW’N CREDO
A’N BRAINT YW GWARCHOD EIN BRO”

Cystadleuaeth Addurno Ffenest Siop



Nadolig 2014



Gwobr : £50 a Tarian i’w Dal am Flwyddyn



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Croesair Tachwedd 2014

AR DRAWS

- 7 Pentref i Elfed ger Caerfyrddin (6)
- 8 Pobl a iaith grwydrol (6)
- 9 Math o fferins, neu Gymro efallai (4)
- 10 Dafnau (8)
- 11 Y dyfodol (3,1,3)
- 12 Glanhau, fel mewn beudy (5)
- 15 Pren caled (5)
- 17 Areithio (7)
- 20 Anwireddau (8)
- 22 Talu'n ôl (4)
- 23 Cynulliad, fel Senedd U.D.A. (6)
- 24 "Hir yw pob -----" (6)

I LAWR

- 1 Creadur neidiol (6)
- 2 Gwasanaethwyr amaethyddol (8)
- 3 Anffodusion cymdeithas ymhob oes (7)
- 4 Ymbil ac erfyn (5)
- 5 Tywysog neu bennaeth Arabaidd (4)
- 6 Ffôl a gwirion (6)
- 13 Gair i ddangos perthynas pethau, e.e. ar, tros, wrth etc. (8)
- 14 Hen gwmwd ger Conwy sy'n cynnwys Llandudno a Deganwy (7)
- 16 Tynnir hwn o'ch trwyn i'ch poeni a'ch gwylltio (6)
- 18 Blaenor (6)
- 19 Newid i weddu, a newid i ffitio (5)
- 21 Ystafell ysbyty (4)

Croesair Hydref

23 anfonodd gynigion. Dyma'r camgymeriadau a gafwyd - 'ysgodyn' yn lle'r ateb cywir 'ysgadan', 'dolau' yn lle 'dolydd', 'diosgau' yn lle 'diosgodd', a chafwyd un cliw heb ei ateb mewn un ymgais.

Gan y canlynol y cafwyd atebion cywir: John a Meirwen Hughes, Abergele; E.E. Roberts, Llanberis; Donna Coleby, Penwortham; Gareth W. Jones, Bow Street; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Ellen Whitehouse, Birmingham; Dafydd Evans, Penisarwaun; Ann Carran, Rita Bullock, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid.

Y cyntaf i ddod o'r het am y wobroedd ymgais Derek a Mai Jones, 26 Bro Rhiwen, Rhiwlas, Bangor. Llongyfarchiadau i chi.

	1		2		3		4		5		6	
7							8					
9					10							
11								12	13			
							14					
15	16						17				18	
					19							
20			21						22			
23							24					

Atebion erbyn dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2014 i: 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Gameddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:



Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: **post@camwrthgam.co.uk**

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: **www.camwrthgam.co.uk**

Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015

Dilynwch ni: @camwrthgam



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Hydref aeth rhai o aelodau’r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyl; yn bennaf i wrando ar adroddiadau gan aelod seneddol (Susan Elen Jones) ac aelod o Gynulliad Cymru (Ann Jones) gyda chyfle i’w holi a mynegi barn ar sawl pwnc. Nodwyd y cynhelir Cynhadledd Plaid Lafur Cymru i Ferched yn Abertawe ar 15 Tachwedd.

Yna ar ddiwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen; yn bennaf i dderbyn adroddiadau am Ewrop, Prydain, Cymru, Gwynedd a Dyffryn Ogwen. Hefyd gwnaed trefniadau ar gyfer noson gymdeithasol/codi arian Plaid Lafur Arfon ym Methel ar ddechrau mis Tachwedd.

Cynhelir y cyfarfod cangen nesaf am 7.30 yng Nghanolfan Cefnfaes ar 26 Tachwedd; gyda Ffair Nadolig y Gangen, Siôn Corn a gwleidyddion yn Neuadd Ogwen ar 29 Tachwedd.

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan

Yr anrheg Nadolig
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol
neu ffoniwch
Dafydd Fôn Williams
01248 601583

CHWILAIR TACHWEDD 2014
Y Tywydd

A	R	A	W	F	S	H	R	I	E	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X
J	U	H	I	S	V	Y	S	H	I	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H
U	Z	M	E	X	V	A	C	D	R	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O
P	F	R	P	W	Y	D	Q	H	A	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O
Y	O	R	I	A	S	Z	A	G	D	U	T	F	D	X	U	P	W	R	H
C	Q	E	H	W	E	H	W	D	O	E	Y	E	E	G	E	O	M	H	E
P	T	T	T	C	B	Y	B	C	M	U	R	U	J	P	L	T	M	I	V
V	D	C	B	H	N	B	F	R	F	E	O	G	J	V	I	I	R	R	X
I	M	H	T	T	D	T	O	S	K	D	R	O	P	W	R	C	M	K	C
B	O	R	C	X	V	E	R	Y	D	H	S	T	M	R	E	F	Y	J	D
Z	U	H	B	C	W	O	R	Y	S	C	R	A	I	X	N	I	L	X	J
J	M	A	B	W	T	E	G	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O
I	L	F	L	E	R	O	Z	Q	R	O	C	T	D	I	G	W	S	L	Z
E	B	E	A	Y	F	J	K	J	C	L	N	L	N	R	V	O	G	J	P
W	P	G	S	I	M	O	W	J	J	Q	U	R	L	F	S	V	T	X	E
U	G	H	L	S	L	Y	Z	E	A	F	E	X	I	W	T	Z	H	K	V
A	G	L	L	L	U	W	C	H	B	O	N	K	A	D	S	I	K	O	G
D	H	B	S	I	B	A	R	R	U	G	L	A	W	U	R	O	X	A	G
X	R	A	E	E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M	B	J	R	F
U	N	K	B	Z	E	B	B	C	U	Y	C	F	T	Z	M	A	P	U	X

Yn y chwila'r mis yma mae deuddeg gair sydd yn disgrifio’r TYWYDD, neu effaith y tywydd. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn Rhagfyr 3ydd . Bydd gwobr o £5 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Herbert Griffiths, Bro Syr Ifor, Tregarth, yn ystod y mis diwethaf. ‘Roedd Mr. Griffiths wedi cystadlu gyda’r chwila'r ers nifer o flynyddoedd ac yn danfon ei atebion acw yn bersonol bob mis, cyn i mi gychwyn am y gwaith lawer tro. Bydd colled ar ei ôl i sawl un oedd yn cystadlu gyda’r chwila'r.

Dim ond dau ateb gyrhaeddodd trwy’r post y mis diwethaf. Gobeithio cewch gwell hwyl gyda’r testun mis yma. Dyma atebion Hydref, fel y cofnodwyd hwy o archifdy Prifysgol Bangor:- Aliocar, Cerryg hogi, Clai Penybryn, Copr y Dinas, Crisiant, Cwm Ffynnon Gaseg, Maen Cellt, Manganese, Setts Gyrn, Sylpher Braich Ty Du, Y Garth, Ysolfwn.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Elizabeth Buckley, Tregarth. Enillydd Hydref oedd :- Elfed Bullock, 8 Maes y Garnedd, Bethesda.

Diwrnod Siwmperi Nadolig.

Mae Achub y Plant eisoes yn llawn ysbryd yr ŵyl ac wedi lansio ein prif ymgyrch codi arian eleni o’r enw Diwrnod Siwmperi Nadolig.

Bydd y digwyddiad eleni yn cael ei gynnal ar Ddydd Gwener 12 Rhagfyr ac rydym yn gweithio’n galed i sicrhau y bydd yn ddiwrnod i’w gofio. Mae’n gyfle gwych i chi gael mymryn o sbort a sbri Nadoligaidd a chodi arian i helpu plant o bob cwr o’r byd ar yr un pryd. Mae’r syniad yn syml: i gael pawb at ei gilydd ar 12 Rhagfyr i wisgo siwmpwr wla'n, glyd ac i gyfrannu £2 yr un i Achub y Plant.

Eleni bydd miliynau o bobl ar hyd a lled y DU yn ymuno gyda’u siwmperi gwlanog a byddem wrth ein bodd petai eich darllenwyr chi yn ymuno â ni. Gallwch gofrestru nawr ar www.christmasjumperday.org ac fe wnawn anfon pecyn codi arian atoch yn llawn o syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a ryseitiau i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmperi Nadolig chi yn llwyddiant.

Os hoffech becyn gwybodaeth codi arian yn y Gymraeg cysylltwch gydag Eurgain Haf neu Lois Eckley ar 02920 803 260 neu e.haf@savethechildren.org.uk neu l.eckley@savethechildren.org.uk.

Bydd yr holl arian a gesglir yn mynd tuag at ein gwaith yn helpu plant mwyaf bregus y byd, felly byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich cefnogaeth. Os hoffech fwy o wybodaeth, croeso i chi gysylltu a byddem yn hapus iawn i fod o gymorth.

Ffilm “STILL THE ENEMY WITHIN” + Q&A
Neuadd Ogwen, Dydd Gwener 28 Tachwedd
7:00 pm

STREIC Y GLOWYR AR Y SGRIN FAWR GYDA SESIWN
CWESTIWN A HOLI

Mi fydd sesiwn holi ag ateb yn dilyn y ffilm gyda chynhyrchwyr y ffilm – Sinead Kirwan a Mark Lacey.

Ffilm ddogfen yw Still The Enemy Within sydd yn cynnig golwg unigryw ar un o ddigwyddiadau hanesyddol mwyaf tyngedfennol ein hanes diweddar – Streic y Glowyr 1984-1985. Mae’r ffilm eisoes wedi ennill canmoliaeth a gwobrau am gynnig profiad gwyllo pwerus sydd yn osgoi defnyddio gwybosodion na gwleidyddion i olrhain yr hanes ond yn hytrach yn defnyddio lleisiau’r unigolion a oedd wir yn ei chanol hi.

Tri deg mlynedd yn ddiweddarach mae’r stori dal yn un cignoeth ag emosynol bwerus. Mae’r ffilm yn gweu deunydd archif gyda chyfweiliadau dwys a dygn gyda’r prif unigolion tu ol i’r anghydfod. Mi oedd cynulleidfya gyntaf y ffilm yn eu dagrau draw yng Ngŵyl Ffilmiau Dogfen Sheffield, lle llwyddodd y ffilm i gipio’r wobr am ddewis o hoff ffilm gynulleidfya’r ŵyl.

Mae’r ffilm hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan Mike Jackson, sef sefydlwr y mudiad ‘Lesbiaid a Hoywon yn cefnogi’r Glowyr’, a sylfaen i’r ffilm lwyddiannus, ddiweddar Pride.

Mae’r ffilm yn cyflwyno hanes a neges sy’n berthnasol i ni gyd – yr angen i gwlffio am ein hawliau. Mae gwyllo’r gorffennol trwy lens y ffilm arbennig yma hefyd yn gyfle i ni ail asesu cyfeiriad ein dyfodol.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid

Bore Coffi Nadolig

yng Nghlwb Criced Bethesda
Dydd Sadwrn 6 Rhagfyr
10.00 y.b. 12.00 y.p

Raffl, stondinau crefft a Siôn Corn a digon o fwrlwm y Nadolig

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont

FFAIR NADOLIG

yn Festri Bethlehem

Nos Fercher, 3 Rhagfyr
am 6.30 o'r gloch

Mynediad £1.00

Yr elw at y capel a'r ysgol Sul

I hysbysebu eich gweithgareddau cymdeithasol yn y Llais, cysylltwch â

Neville Hughes

☎ **600853**

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Bore Coffi Nadolig NSPCC

Caffi Coed y Brenin

Sadwrn, 6 Rhagfyr
10,00 - 12.00

Tombola a Raffl

Siocled am ddim i bob plentyn

Mynediad £1.00 yn cynnwys panad a bisgedi

Neuadd Ogwen

Ffair Nadolig

Y Blaid Lafur. efo Siôn Corn

Bore Sadwrn. 29 Tachwedd
10.00 i 12.00

Mynediad £1.00

Marchnad Pesda

22 Tachwedd 06 Rhagfyr

9.30 - 1.30

Yn Neuadd Ogwen

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi Nadoligaidd

Côr y Penrhyn

Sadwrn, 20 Rhagfyr
10.00 - 12.00

Mynediad ; £1.00

Dewch am banad a sgwrs

Ysgoldy Maes y Groes Talybont

TE NADOLIG

Sadwrn, 29 Tachwedd

2.00 i 4.00 o'r gloch

Y Caban, Gerlan

Tai Ji

bob nos Fercher
7.00 - 8.30

£3 y sesiwn

Croeso i bawb

Digwyddiadau Neuadd Ogwen				
RHAGFYR				
4	DARLITH - O'r Môr i'r Llys: Siwrnai olaf RMS Titanic - Dr Hayley Roberts, Ysgol y Gyfraith	7pm	-	
6	Marchnad Pesda	9.30am		
6	Cyngerdd - 9Bach, Yucatan	7pm	£10/8	
11	DARLITH - Llên Cymry Llundain: Crwydriaid, Drychiolaethau a Meibion Afradlon - Dr Tomos Owen, Ysgol Saesneg	7pm	-	
11	Gŵyl Ffilm Affricanaidd COME BACK, AFRICA	9pm	£5	
12	Gŵyl Ffilm Affricanaidd KHUMBA	12pm	£5/3	
12	Gŵyl Ffilm Affricanaidd - Gweithdy Animeiddio Khumba	12pm	£5	
13	Marchnad Ogwen Nadolig	9.30am	-	
13	Gŵyl Ffilm Affricanaidd MINERS SHOT DOWN	7pm	£5	
14	Gŵyl Ffilm Affricanaidd HEAR ME MOVE	7pm	£5	
18	Sioe Bantomeim Nadolig Patagonia	7pm	£10/8	
20	Digwyddiad Undod Gaza Solidarity Event	7pm	-	
27	Parti Nadolig Nyth	7pm	£?	
28	Ffilm plant THE NUT JOB	11am	£5/3	
28	Ffilm THE GOOD, THE BAD AND THE UGLY	7pm	£5	

Canolfan Cefnfaes BETHESDA

GYRFA CHWIST

Tachwedd 25
Rhagfyr 9 ac 16
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont

GWASANAETH NADOLIG

yng nghwmni Plant yr Ysgol Sul

Dydd Sul, 14 Rhagfyr
am 2.00 o'r gloch

Casgliad at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 8 Rhagfyr 2014
yn Festri Capel Jerusalem

Dr Pam Michael

Hanes Ysbyty Meddwl Dinbych 1848 i 1915: gyda phwyslais ar brofiad rhai o'r cleifion o ardal y chwareli.

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Marchnad Ogwen

Marchnad Nadolig

Cerddoriaeth fyw a Siôn Corn

13 Rhagfyr

Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Caffi
www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook:
www.marchnadogwen.co.uk

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Gwasanaeth Nadolig

yn Eglwys Porthaethwy

7 Rhagfyr 2014
am 7.00 o'r gloch

Gwneir casgliad at waith y Cyfeillion

Cefnogaeth i weithredu yn erbyn baw ci

Yn ddiweddar bu Swyddogion Gorfodaeth Stryd a Threfi Taclus Cyngor Gwynedd yn cymryd rhan yn Niwrnod Gweithredu Cymru Gyfan yn erbyn baw cŵn. Roedd y diwrnod yn rhan o ymgyrch cenedlaethol wedi ei drefnu gan Cadwch Gymru’n Daclus i godi ymwybyddiaeth o’r peryglon achosir gan faw cŵn mewn mannau cyhoeddus.

Canolbwyntiwyd ymdrechion Cyngor Gwynedd ym Methesda yn dilyn nifer o gwynion gan drigolion am berchnogion cŵn anghyfrifol sydd yn parhau i adael i’w hanifeiliaid faeddu mewn mannau cyhoeddus. Bu Swyddogion y Cyngor ar y Stryd Fawr yn siarad gyda phreswylwyr a busnesau ac yn rhannu pecynnau o fagiau baw cŵn am ddim i annog perchnogion i lanhau ar ôl eu cŵn.

Meddai’r Cynghorydd Ann Williams, yr aelod lleol sydd yn cynrychioli ward Ogwen ym Methesda ar Gyngor Gwynedd:

“Er gwaethaf yr holl waith caled i fynd i’r afael â’r broblem cŵn yn baeddu yn y blynyddoedd diwethaf, nid oes ots gan rai perchnogion. Does yna ddim esgus, gan fod y Cyngor yn darparu pecynnau bagiau baw cŵn am ddim. Rwy’n arbennig o bryderus am y sefyllfa ar y Stryd Fawr a’r llwybrau sy’n arwain at Ysgol Abercaseg.”

Daw’r diwrnod codi ymwybyddiaeth yn dilyn dau gynllun Trefi Taclus diweddar yn ysgolion cynradd Bethesda - Ysgol Abercaseg ac Ysgol Penybryn - lle bu’r plant yn rhan o brosiect i ddylunio lluniau lliwgar am y sefyllfa baw cŵn i’w gosod ar arwyddion o gwmpas y gymuned i annog troseddwr cyson i ail-feddlwl.

Baw Cŵn a Toxocariasis

Un o’r prif resymau pam dylai perchnogion atal eu cŵn rhag baeddu ydy oherwydd y parasitiaid gall fod yn niweidiol i bobl, yn enwedig plant. Mae ‘Toxocariasis’ yn afiechyd a achosir pan fydd yr wyau llyngyr toxocara yn cael eu trosglwyddo o gŵn i bobl drwy faw ci wedi’i heintio neu bridd. Gall yr haint achosi salwch a hyd yn oed dallineb.

Mae’n drosedd i beidio â chlirio ar ôl i gi o dan eich rheolaeth faeddu mewn unrhyw le cyhoeddus. Mae troseddwr yn agored i gael cosb benodol o £75 gan Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd a Staff Parciau Morol. Gallai methiant i dalu’r gosb arwain at ddirwy llys o hyd at £1,000.

Beth allwch chi ei wneud?

Os ydych chi’n berchen ci, gwnewch yn siŵr eich bod chi’n cario digon o fagiau baw cŵn gyda chi pan fyddwch chi’n mynd â’ch ci am dro Gallwch roi baw cŵn wedi ei lapio mewn unrhyw fin cyhoeddus neu ewch â’r pecyn adref a’i waredu’n gyfrifol.

I ofyn am becyn o fagiau baw cŵn yn rhad ac am ddim, cysylltwch â Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd drwy ffonio 01766 771000 neu e-bostiwrch TrefiTaclus@gwynedd.gov.uk

Taclo’r Taclau

Gall y cyhoedd hefyd helpu drwy adrodd am achosion o unigolion yn gadael baw cŵn ar strydoedd y sir i Dîm Gorfodi Strydoedd Cyngor Gwynedd yn gyfrinachol drwy ffonio 01766 771000, neu drwy fynd i www.gwynedd.gov.uk/gwnewch-o-ar-lein

Mae Trefi Taclus Gwynedd yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru.



Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Neale; y Cynghorydd Ann Williams sy’n cynrychioli ward Ogwen Bethesda ar Gyngor Gwynedd a’r Cynghorydd Gwilym Owen o Gyngor Cymuned Bethesda.

Partneriaeth Ogwen

Siop Ogwen yn agor

Ar y 14eg o Dachwedd, agorwyd Siop Ogwen yn swyddogol gan Hywel Williams, Aelod Seneddol Arfon, a’r Dirrwy Brif Gwnstabl Gareth Ptitchard.

Mae hyn yn ddiwedd dwy flynedd o waith caled o ran prynu ac adnewyddu'r hen siop yn 26 Stryd Fawr, Bethesda.

Mae'r siop wedi ei rhannu yn ddwy ran gyda desg wasanaeth i asiantaethau amrywiol ddarparu gwasanaeth a siop grefftau i grefftwyr lleol arddangos eu gwaith. Wrth i'r Llais fynd i brint, roedd crefftwyr lleol wrthi'n stocio'r silffoedd ac edrychwn ymlaen i allu gwerthu cynnyrch amrywiol i drigolion y Dyffryn.

Mae'r crefftwyr yn cynnwys y crefftwyr lleol canlynol :- Gwydrau Stephanie Sherlock, Celf Ann Lewis, Celf Val Hopkins, Sebonau Popeth Neis, Crefftau Fiona Sherlock, Cardiau Inc Pinc, nwyddau Dyfal Donc, Crefftau Caren a chynnyrch Welsh Slate. Mae rhai cwmnïau o tu hwnt i'r ardal hefyd yn mynd i gael gofod arddangos felly bydd digon o ddewis i siopwyr Nadolig yr ardal. Braff yw gallu dweud hefyd i ni benodi merch leol i weithio yn y siop a bydd Sara de Waart yn dechrau ymhen y mis.

Ym mis Hydref hefyd, cychwynnodd Anwen Eleri Jones fel Swyddog Cefnogi a Chyfathrebu i Bartneriaeth Ogwen. Anwen sy'n gyfrifol am glercio i dri chyngor cymuned Llandygai, Llanllechid a Bethesda a braf yw gallu ei chroesawu i weithio â ni. Mae Anwen yn gweithio'n rhan amser ac yn gweithio fel Swyddog Marchnata i Venue Cymru yn ogystal â gweithio deuddydd i'r Bartneriaeth. Mae Anwen yn ferch leol a bu ei thaid yn glerc i Gyngor Cymuned Bethesda yn y gorffennol. Mae hi'n edrych ymlaen i weithio a chyfrannu tuag at ei chymuned trwy weithio i'r Bartneriaeth.



Anwen Eleri Jones - aelod newydd o staff Partneriaeth Ogwen

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Prif Ddisgyblion



Prif ddisgyblion yr ysgol eleni yw Mari Davies a Jack Henry, gyda Bethan Hughes, Glesni Jones a Gwynfor Rowlinson yn ddirprwyon. Cawsant eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion a'r staff. Llongyfarchiadau mawr i'r pump.

Llwyddo'n Lleol



Llongyfarchiadau i'r tîm o 12 disgybl o flwyddyn 10 am ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth 'C'mon Cymuned' a gynhaliwyd gan Llwyddo'n Lleol yng Ngwynedd. Yr oedd yn rhaid i'r tîm greu syniad busnes i'r gymuned leol, ac er nad oedd amodau'r gystadleuaeth yn mynnu hynny, defnyddiodd y criw eu sgiliau cyfrifiadurol i wneud ffilm a chyflwyniad i werthu eu syniad. Cawsant adborth rhagorol gan y beirniaid, a oedd yn nodi ansawdd uchel y cais. Mae'r criw eisoes wedi defnyddio'r wobwr ariannol o £1,000 i brynu adnoddau i sefydlu eu busnes. Byddant hefyd yn mynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth ar lefel gogledd Cymru.

Wythnos Sgiliau



Cynhaliwyd wythnos sgiliau traws-ysgol ddechrau mis Hydref. Yr oedd rhaglen bwrpasol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer yr holl flynyddoedd.

Bu disgyblion blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu am ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros dros nos yn Rhyd Ddu a'r gwaith caled o gerdded yr Aran a'r ail yn adeiladu lloches ym Mharc Meurig gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm. Daeth pawb adref yn flinedig ond wedi mwynhau – yn adnabod ei gilydd yn well ac yn teimlo yn rhan go iawn o Ysgol Dyffryn Ogwen – Croeso mawr i chi!

Gan fod blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu manteisiwyd ar y cyfle i roi profiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan ganolbwyntio ar hybu'r sgiliau. Dyma oedd arlwy'r wythnos:-

- Blwyddyn 7** – Rhyd Ddu, gweithgareddau Indonesia a chreu ffilm.
 - Blwyddyn 8** – Gweithgareddau Rhifedd a Llythrennedd, datrys problemau, diwylliant Tsieina, ymweliad ag Amgueddfa Gwynedd a diwrnod dinasyddiaeth gan ar gyflenwad dŵr ar draws y byd.
 - Blwyddyn 9** – Gweithgareddau Gwrth-Fwlio, Cymru'n Cofio, yn sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf, ymweliad â'r Ysgwrn (cartref Hedd Wyn) a chreu ffilm am Ioan Doyle.
 - Blwyddyn10** – Sesiwn ar sgiliau trosglwyddadwy gan Gyrfa Cymru, gweithdai ar y Cynulliad, Y Parc Cenedlaethol a sgiliau astudio. Paratoi ar gyfer gweithgaredd Menter y Bac a sesiynau ffitrwydd, sesiynau 'Hawl i Holi' gyda chynghorwyr lleol.
 - Blwyddyn11** – Mynychu cynhadledd Gyrfaedd yn Llandudno, gweithdy sgiliau astudio a ffug-gyfweliadau, ymchwiliad unigol y Bac a sesiynau ffitrwydd.
- Mae'r disgyblion wedi datblygu llw o sgiliau gwerthfawr a fydd yn eu gwneud yn well dysgwyr ac yn eu paratoi i gyfrannu'n llawn i'w cymunedau yn y dyfodol.

Adran Addysg Gorfforol
Llongyfarchiadau mawr i'r Adran Addysg Gorfforol am ennill yr 'Active Mark', sef marc ansawdd gan Chwaraeon Cymru. Mae ennill y marc yn arwydd o gryfder ac ansawdd y pwnc yn yr ysgol, ac o'r profiadau rhagorol a gaiff y disgyblion yn y gwersi ac yn allgyrsiol.

Pêl-rwyd
Colli fu hanes tîm pêl-rwyd blwyddyn 10 yn ddiweddar yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen a hynny mewn gêm agos iawn gyda'r sgôr terfynol yn 5-4. Llwyddodd Jade Roberts i sgorio nifer o'r goliau ond cafodd Syr Hugh eu pumed gôl yn yr ugain eiliad olaf. Roedd yn berfformiad da iawn gan enethod Dyffryn Ogwen!

Llongyfarchiadau i Manon Hughes, blwyddyn 11, sydd wedi ei dewis i gynrychioli Eryri yng ngharfan pêl-rwyd dan 16. Bydd Manon yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhyng-sirol Cymru yn ystod y flwyddyn.

Rygbi
Cafodd tîm rygbi genethod dan 15 y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Tryfan cyn hanner tymor gyda buddugoliaeth gwych o 20 – 5. Ceisiadau gan Elin Owen x 2, Sophie Ellis a Mari Jones. Mae tîm newydd wedi ei sefydlu i enethod dan 16 yng nghlwb rygbi Bethesda ar nos Fercher 6 – 7 o'r gloch, croeso i unrhyw un ymuno.

Noson Agored
Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol nos Fawrth, 21 Hydref, i rieni disgyblion ym flynyddoedd 5 a 6. Yr oedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llandygái, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas a Thregarth. Yr oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol, a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.

Cymhwyster Sgiliau Gwaith
Derbyniodd pob disgybl ym flwyddyn 11 gymhwyster Sgiliau Gwaith ('Workskills') sy'n ymwneud â Phrofiad Gwaith. Mae'r cymhwyster yn gydnabyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud wrth baratoi disgyblion ar gyfer profiad gwaith, ac mae'n gyfwerth â chwarter TGAU.

Ogofau Cwm Penmachno
Cafodd criw ohonom o flwyddyn 9 brofiad difyr iawn yn ddiweddar pan gawsom y cyfle i fynd i Gwm Penmachno i ymweld â'r ogofau tanddaearol oedd yno. Ar ôl cerdded i fyny a gwisgo gwregysau diogelwch, buom yn rafftio a gweld hen offer diwydiannol oedd yn cael eu defnyddio pan oedd yr ogofau yn llawn chwarelwyr yn hollti llechi a'u cario ar gertiau ar draciau arbennig.



Cawsom hefyd weld sut oedd ffrwydron yn cael eu defnyddio i hollti'r creigiau. Wedyn mi wnaethom gerdded i ran arall o'r ogofau ac eistedd yn y tywyllwch er mwyn gweld sut oedd y chwarelwyr yn gorfod gweithio heb oleuni. Os nad oedd gan y chwarelwyr ddigon o arian i fforddio prynu cannyll i weithio, yr oedd yn rhaid iddynt weithio yn y tywyllwch!! Doedd hynny DDIM yn brofiad braf! I orffen y dydd cawsom gyfle i ddringo rhacadr drwy'r dŵr. Doedd hynny ddim yn hawdd, ond yn cŵl! Yr oedd yr ardal yn llawn o dai'r gweithwyr ac adeiladau eraill sydd bellach yn ddafeilion. Diolch i Mr Arwel Elias o Gyngor Gwynedd am ein tywys, ac am ddiwrnod difyr a gwahanol iawn!

Beca Jackson - 9 Idwal

Ysgol Pen-y-bryn

Yr Ysgwrn

Fel rhan o'r gwersi hanes, bu blwyddyn 5 a 6 i'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd i ymweld â chartref Hedd Wyn. Diddorol oedd clywed am hanes Hedd Wyn a'i deulu, a braint oedd cael gweld y gadair ddu. Yn sicr, mae'r ymweliad wedi cyfoethogi dealltwriaeth y plant am y bardd a'r cyfnod. Hoffem ddiolch o galon i Gerald (nai Hedd Wyn) am fod mor barod i rannu ei atgofion gyda ni.

Disco Calan Gaeaf



Diolch o galon i'r Cyfeillion am eu gwaith caled gyda'r disgo. Casglwyd swm anhygoel o £333.29 yn ystod y noson! Roedd y gwisgoedd yn werth eu gweld, a daeth Hannah Hughes o ddosbarth Tryfan yn gyntaf o'r genethod am ei gwisg erchyll a daeth Cameron Briggs o ddosbarth Glyder yn gyntaf o'r bechgyn am ei wisg dychrynlyd!

Disgo'r Urdd

Aeth 66 o blant yr ysgol i ddisgo'r Urdd yn Ysgol Tryfan, Bangor. Bu'r plant yn dawnsio a gwario'n y siop a mwynhau'r gerddoriaeth Gymraeg. Diolch i'r holl staff a aeth â'r plant yno.

Castell Penrhyn



Dyma blant Carnedd Dafydd yn mwynhau ymweliad a Chastell y Penrhyn. Fe gerddon o amgylch y gerddi a chawson sgwrs gan rai o wirfoddolwyr yr ymddiriedolaeth. Fe welson wely'r frenhines Fictoria a oedd wedi ei wneud o lechen chwarel Penrhyn. Roedd pawb yn weision am y diwrnod ac yn cael blas o sut y byddai bywyd wedi bod yn y Castell o dan reolaeth yr Arglwydd Penrhyn!

Ysgol Tregarth

Teganau a gwisgoedd o'r gorffennol



Thema dosbarth Llywelyn a Dafydd yr hanner tymor diwethaf oedd 'Albwm y Teulu'. Dysgodd y plant am deuluoedd o'r gorffennol gan ganolbwyntio a dysgu ffeithiau diddorol am hen deganau. Bu cynnwrf mawr yn ein dosbarth pan ddaeth Ms. Gwenda o'r Archifdy i arddangos teganau a gwisgoedd o'r gorffennol. Gofynnwyd nifer fawr o gwestiynau a dysgu llawer am fywyd plant o'r blaen. Diolch am sgwrs ddiddorol iawn.

Gwersi recorders

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf mae blwyddyn 3 wedi bod yn ffodus iawn i gael cychwyn gwersi recorders gyda Mrs Jane Parry. Mae pawb yn mwynhau yn fawr iawn ac wrth eu bodd yn dysgu'r sgil cerddorol yma. Daliwch ati blwyddyn 3! Medal aur Karate i Dewi Glyn Roberts o Rachub, yn 12 oedyn

'Mewn Cymeriad'

Bu holl ddisgyblion CA2 yn ddigon lwcus i gael ymweliad gan un o'r cwmni bywiog yma unwaith yn rhagor. Y tro hwn cawsom ddysgu am y cymeriad Robert Recorde, y meddyg a'r mathemategydd o Gymro a ddyfeisiodd y symbol hafal (=). Bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn datrys problemau mathemategol o dan ei arweiniad. Roedd yn gyflwyniad byrlymus a bywiog i fywyd a gwaith Robert Recorde. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw - ac wedi llwyddo i ddatrys y problemau! Medal aur Karate i Dewi Glyn Roberts o Rachub, yn 12 oedyn

Ffilmio Ysgol Jac

Bu disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn hynod o lwcus i gael ymweld a stiwdio recordio Antenna yn ddiweddar, a byddant yn ymddangos ar y rhaglen Ysgol Jac rywdro yng nghanol Mis Tachwedd. Roedd llawer o gemau a gweithgareddau gwirion iawn llawn hwyl i'r disgyblion ac i'r athrawon hefyd. Bu Mrs Cerys yn canu Carioci a thynnu rhaff mewn fflipars a Mr Ifan a'i ben mewn bowlen o iogwrt heb son am y timau o blant oedd yn gorfod trefnu 'selebs' yn ôl eu hoedran. Camp anodd iawn. Bu cystadlu brwd yn erbyn Ysgol Cae Top gydag Ysgol Tregarth yn llwyddo i ennill yn y ffeinal. Edrychwyn ymlaen i gael gweld y disgyblion a'r athrawon yn mwynhau eu hunain ar Ysgol Jac yn fuan.

Casglu arian at UNICEF

Yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch a oedd yn pwysleisio mor ffodus ydym ni yma yng Nghymru, aeth y Cyngor Ysgol ati i drefnu gweithgaredd i gasglu arian at blant sydd ddim mor ffodus â nhw. Penderfynwyd y byddai pawb yn talu am ddod i'r ysgol yn eu gwisg eu hunain ac anfon yr arian at UNICEF sydd yn helpu plant yn Syria. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd yr achos pwysig yma.

Ysgol Llandygái

Croeso

Croeso mawr i Miss Lois Williams sydd wedi ymuno â ni fel athrawes Dosbarth Siriol ac i Mr James Parry sydd yn cyflenwi swydd Mrs Nia Hughes am gyfnod tan y Nadolig.

Radio Ysgol

Mae cerddoriaeth Gymraeg i’w chlywed o amgylch yr ysgol bob bore Iau ynghyd â newyddion, rhagolygon y tywydd a phosau gan ddisgyblion yr ysgol. Bydd pob dosbarth yn cyfrannu gwahanol eitemau yn wythnosol a braf yw clywed disgyblion yn mwynhau a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i furiau’r dosbarth.

Cyngor Ysgol

Bu disgyblion yr Adran Iau yn ethol aelodau i Gyngor yr Ysgol. Aelodau newydd y Cyngor am eleni yw Prif Ferch - Ellen Prif Fachgen - Jamie Dirprwy Ferch - Lilly Dirprwy Fachgen - Sam ynghyd ag Isla, Christopher, Non, Ocean, Finlay a Hannah. Bydd y cyngor yn cyfarfod yn wythnosol i drafod materion a gwneud penderfyniadau pwysig dros weddill disgyblion yr ysgol. Swydd gyfrifol iawn.

Sioe Fathemateg/Hanes

Bu disgyblion yr Adran Iau yn brysur yn gwrandao a chymeryd rhan mewn cyflwyniad yn ymwneud â’r symbol ‘hafal’. Braf oedd clywed mai Cymro oedd y gŵr ddyfeisiodd y symbol yma. Cawsant gyfle i ddatrys problemau ac wrth wneud hynny roeddent yn cyfathrebu drwy rannu syniadau a gwrandao ar syniadau pobl eraill.

Ysgol Goedwig

Mae disgyblion Dosbarth Awel yn ymweld â choedwig Penrhyn yn wythnosol i dreulio amser gyda’r staff i drafod peryglon yr amgylchedd, i greu cuddfannau, ac i arsylwi ar drychfilod bychain.

Astudio Gwaith Arlunydd

Mae digyblion Dosbarth Hedd wrthi yn astudio gwaith yr arlunydd Tim Pugh ac yn deillio o edrych ar ei waith mae’r disgyblion yn gweithio a chreu patrymau tebyg yn yr ardal tu allan. Diolch am dywydd braf !!

Ymweliad Malcolm Allen

Cawsom fore hynod o hwyllog yng nghwmni y peldroediwr proffesiynol Malcolm Allen. Bu’n annerch yr ysgol gyfan – yn trafod ei blentyndod yn Neiniolen a’i amser yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac yna aeth ymlaen i sôn am ei yrfa fel peldroediwr gan orffen oherwydd anaf yn nhîm peldroed Newcastle. Yn dilyn hyn cafodd y disgyblion y cyfle i sgorio yn erbyn Malcolm – ac aeth ambell i bêl i mewn i’r rhwyd !!!

Prif neges Malcolm oedd ei fod yn hynod o falch o fod yn Gymro, gan iddo gael cymaint o brofiadau a chyfleoedd wrth siarad yr iaith a hefyd roedd yn pwysleisio mor lwcus ydy disgyblion yr ysgol yn medru siarad a chyfathrebu mewn dwy iaith.

Cydweithio Hapus Pontio

Mae disgyblion Dosbarth Tirion wedi bod yn cydweithio gyda disgyblion Ysgol Tryfan yng nghwmni y prifardd Tudur Dylan Jones i greu barddoniaeth, i greu cerddoriaeth ac i berfformio mewn dramâu. Profiad gwerthfawr a chyfle i bontio a chreu cyswllt gyda disgyblion o ysgol arall.

Gwirfoddolwyr Darllen

Diolch i’r tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr darllen am ddod atom eto eleni i gefnogi y disgyblion gyda’u darllen. Croeso i Mrs Iona Jones atom a diolch iddi am fod mor barod i gynorthwyo disgyblion Dosbarth Siriol.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Bu’r disgyblion yn addoli ac yn cymeryd rhan mewn gwasanaeth yn Eglwys Tegai fore Iau 23 Hydref. Roedd croeso i rieni, ffrindiau ac aelodau o’r gymuned i gyd-addoli ac i gefnogi’r plant. Cawsom wasanaeth bendigedig - y disgyblion ar eu gorau fel arfer.

Ysgol Abercaseg

Clybiau Darllen.

Fe gynhaliwyd clybiau darllen llwyddiannus yn yr ysgol yn ystod y mis. Cafodd plant a rhieni’r ysgol gyfle i ddod i weld gwahanol weithgareddau y mae’r ysgol yn ei gynnal i hybu sgiliau llythrennedd a darllen a deall. Cawsant flas ar weld cynllun dysgu ffoneg sef Tric a Chlic yn cael ei weithredu ynghyd â chael cyfle i ddefnyddio adnoddau technolegol megis yr iPad gydag awgrymiadau defnyddiol ar ba appiau i’w defnyddio adref gyda’u plant. Diolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi’r clybiau.

Eco ysgolion /ysgol wyrdd.



Fel rhan o waith thema’r ysgol daeth Ffion Jones o Adran Ynni Cyngor Gwynedd i’r ysgol i drafod sut i arbed defnyddio ynni o fewn yr ysgol a’r cartref. Dangosodd ffilmiau o gartwn Sbarci a Fflic gyda’r plant ieuengaf i drafod y neges yn syml sef sut i helpu’r amgylchfyd drwy ddiffodd offer trydanol. Trafodwyd hefyd faint o ynni roedd yr ysgol wedi ei arbed yn ystod y flwyddyn diwethaf. Diolch i Ffion am wneud yr ymweliad mor ddiddorol!

Disgo Gwisg Ffansi.

Roedd cryn drafod yn yr ysgol gan y plant am y gwisgoedd



ffansi roeddynt am eu gwsgo ar gyfer y disgo. Roedd y plant eto eleni wedi gwisgo yn arbennig ac wedi mwynhau’r dawnsio a chymryd rhan yn y cystadleuthau.

Cynllun Gwên

Daeth Sarah Archer i’r ysgol i gael sgwrs gyda phlant Blwyddyn 2 ar sut i edrych ar ôl eu dannedd. Daeth â chyfaill bach gyda hi, sef y ddraig fach, i ddangos i’r plant sut i frwsio eu dannedd yn gywir. Cafodd y plant agoriad llygaid pan glywsant faint o siwgr oedd mewn rhai bwydydd a diodydd. Diolch yn fawr i Sarah am ymweld a rhoi cyngor gwerthfawr i’r plant.

Ysgol Llanllechid

Penblwydd Hapus!

Penblwydd hapus arbennig i Tomos Morris!
Hwyl Fawr!

Diolch i Anti Carol am ei gwaith yn y gegin. Dydi Anti Carol ddim yn mynd yn bell; mae'n dal hefo ni yn sicrhau fod yr ysgol yn parhau i sgleinio fel swllt!

Archfarchnad

Cafodd dosbarth Blwyddyn 2 groeso arbennig mewn arch-farchnad yng Nghaernarfon. Cafodd pawb weld sut oedd y gweithwyr yn y cefndir yn trin y pysgod a gwneud y bara. Roedd arogl o'r torthau yn crasu yn codi blys ar bawb a chafodd y plant mo'i siomi; bwytaodd pob un frechdan ffres oedd newydd ddod allan o'r popty! Blasus dros ben a gwers goginio heb ei hail!

Segontiwrm

Aeth plant dosbarth Mrs Angharad Parry Owen ar ymweliad â Segontiwrm Caernarfon yn ddiweddar fel rhan o'u hastudiaeth ar y Rhufeiniad. Cawsant gyfle i wisgo fel milwyr Rhufeinig a chrwydro o amgylch muriau'r hen gaer. Diolch i Mr Trystan Jones am gyflwyno cymaint o wybodaeth i'r plant am ein hen, hen hanes.

Diwrnod T.Llew Jones



Bu pob dosbarth yn dathlu bywyd a gwaith T.Llew Jones ar ddydd arbennig yr awdur. Bu'r disgyblion yn dysgu ei farddoniaeth ac yn gwrando'n astud ar ei storïau. Cafwyd gweithgareddau amrywiol ym mhob dosbarth ac yn nosbarth Mrs Rona Williams roedd llond y lle o forladron mileinig! Pob un yn debyg i Barti Ddu o Gasnewy' Bach!

Oriel Môn

Cafodd plant dosbarth Mrs Bethan Jones amser da iawn yn Oriel Môn gyda mam Efa Lois ac Efa Fflur, Anwen Burgess. Roedd y gweithdy Celf yn werth chweil a llwyddwyd i gwblhau portreadau bendigedig. A wir i chi mae'n bosib adnabod y disgyblion o'r portreadau! Dyna sgil!

Archifdy

Bywyd cwbl wahanol oedd hi heb drydan, ynte! Mae'n anodd i'n plant bach ddarnad y fath fywyd y dyddiau hyn, yn enwedig o ystyried eu bod yn cael eu magu mewn cyfnod lle mae bri yn cael ei roi ar bob math o sgriniau – boed hi'n sgrin fawr neu fach! Pleser felly oedd gwahodd ein ffrindiau draw o'r Archifdy i sgwrsio â disgyblion Mrs Parry Owen ac egluro sut fywyd oedd hi go iawn yn ein bythynod ers talwm... kannwyll wêr; tecell ar y tân; fforc fawr i ddal tafell o fara o flaen tanllwyth o dân i wneud tŷt; llechi gleision ar lawr y gegin; ffedog fras; haearn swmddio yn y tân i'w boethi, megin i ennyn fflamau yn y fawnen frwd a.y.y.b. Yn ogystal, rhyfeddod i'r plant oedd dysgu am arferion diwrnod golchi ers talwm, – tydi'r oes wedi newid `dwch!

Diolchgarwch

Cafwyd amrywiol themau yn ein cyflwyniadau diolchgarwch eleni eto a'r disgyblion yn morio canu! Braf oedd gweld neuadd yr ysgol o dan ei sang a chefnogaeth ein rhieni yn werth y byd! Cafwyd gwledd – o'r plant lleiaf un yn y dosbarth Meithrin hyd at y plant hynaf ym Mlwyddyn 6. Bore gwerth chweil a diolch i bawb!

Diolchgarwch Capel Carmel

Ar noswaith braf o Hydref, cafodd Mrs Davies Jones y cyfle unwaith yn rhagor i fynd draw i Gapel Carmel i siarad hefo'r plant. Gan ein bod yn cofio'r Rhyfel Mawr eleni, trafodwyd y gair pwysig; Heddwch. Yna, cafodd pawb yn y gynulleidfa eu cyfareddu pan ddarllenodd Gwydion Rhys hynt a helynt y tri brawd a adawodd eu cynefin, sef yr ardal hon, a'i throi hi tua'r Rhyfel Mawr. Diolch am ddarllen mor ystyrlon Gwydion. Unwaith eto eleni, roedd safon perfformiadau'r plant yn werth chweil a braint yw gweld ein pobl ifanc; ein cyn-ddisgyblion, yn parhau yn ffyddlon i'r achos ac yn cymryd rhan mor ddeheuig mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys canu deulais. Diolch hefyd i aelod o'n staff ni, Ms Elin Mair am arwain y cyfan. Yn ogystal, mae ein diolch diffuant yn mynd i Mrs Helen Williams am barhau i fod yr un mor frwdfrydig ag erioed yn arwain y cyfan gan gyflwyno trysorau i'n pobl ifanc. Rhaid nodi hefyd y gwaith arbennig a welwyd ar furiau Capel Carmel – gwerth ei weld, sef ffrwyth llafur aelodau'r Dwylo Prysur. Mae'r profiadau a gaiff y plant a'r bobl ifanc yn amhrisiadwy o dan arweinaid Mrs Helen Williams a'i thîm, a diolch am y cyfle euraidd i gyd-weithio mor agos hefo chi fel capel.

Coginio

Mae'r sesiynau coginio yn parhau i fynd o nerth i nerth a danteithion lu yn cael eu creu.

Panto yn yr Ysgol

Diolch yn fawr i Mrs Anwen Morgan, mam Daniel a Dafydd, cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen brynhawn i'w gofio pan ddaeth 'Gweithdy Panto' o Venue Cymru i'n hysgol yn arbennig i ddysgu'r plant am sgiliau actio! Cafwyd p'nawn hwyliog a phawb wrth eu boddau yn cael colur a gwisgo i fynw mewn gwisgoedd o bob math! Roedd hi'n hynod anodd adnabod rhai o'r plant; cymaint oedd y trawsnewidiad! Prynhawn i'w gofio!

Disgo'r Urdd

Aeth criw egniol i ddawnsio yn y disgo a drefnwyd gan yr Urdd yn Ysgol Tryfan ddiwedd mis Hydref. Cafwyd noson llawn hwyl a phawb yn mwynhau yr arlwy gyffrous o gerddoriaeth amrywiol. Diolch i bawb o'r staff oedd yn helpu ar y noson.

Gweithdy Rocedi



Mae dosbarthiadau Mr Huw Edward Jones a Mr Stephen Jones yn astudio'r planedau yr hanner tymor hwn a daeth Emma Wride o'r Brifysgol i gynnal diwrnod o weithgareddau yn ymwneud â'r bydysawd i'w diddanu! Yn ystod y bore fe aeth holl ddisgyblion yr ysgol i'r neuadd a chael cyfle yn llythrennol i ddysgu a gwibio o amgylch y planedau drwy gyfrwng y sbectol 3D! Oedd, roedd pob copa walltrog yn gwisgo un! Yn ystod y prynhawn fe fu disgyblion blynyddoed 4 a 5 yn creu rocedi ar iard yr ysgol, cyn eu lansio i'r entrychion a daeth rhai o'r rhieni ac aelodau o'r Llywodraethywr i ymuno yn yr hwyl! Dywedodd Sam: "Dyma'r diwrnod gorau dwi wedi ei gael yn Ysgol Llanllechid ac mi gofiau y diwrnod yma am byth!"

Ysgol Bodfeurig

Sioe Robert Recorde



Ydych chi wedi clywed am Robert Recorde? Wel ‘doedd plant dosbarth Tryfan ac Ogwen ddim wedi chwaith! Bu’r ddau ddosbarth wrth eu bodd yn clywed am y Cymro enwog ddyfeisiodd y symbol hafal (=). Cafwyd sioe llawn hwyl, ac ambell broblem mathemategol. Dwi’n siŵr y bydd pawb yn meddwl am Robert wrth wneud eu gwaith mathemateg o hyn ymlaen!

Ysgol Jac

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i fynd i Gaernarfon yn ddiweddar i ffilmio rhaglen Ysgol Jac a fydd yn cael ei ddangos ar Stwnsh yn fuan. Cafodd pawb lond gwlad o hwyl yn cymryd rhan mewn gemau ac yn gweld Miss Owen yn cystadlu hefyd. Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld y rhaglen ar y teledu!

Plannu Bylbiau



Yn ddiweddar fe fu plant dosbarth Tryfan yn plannu bylbiau yn ein gardd wenyn yma ym Modfeurig. Fe fu’r plant yn plannu clychau’r gôg er mwyn denu’r gwenyn i’n gardd! Roedd pawb wrth eu boddau yn cael datblygu’r ardd wenyn unwaith eto. Dyma Doris a Lexi yn dangos eu sgiliau garddio wrth iddynt blannu!

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Cafwyd agoriad ardderchog i dymor y Gymdeithas Hanes eleni gan dad a merch.

Y dyddiad oedd 13 Hydref, a’r lleoliad, fel arfer oedd festri Capel Jerusalem. Daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghŷd i wrando ar Cynrig Hughes, o Rallt Uchaf, Pentir, â’i ferch, Cadi Iolen, yn trafod “Dyddiadur Chwarelwr : 1914 – 1918”. Roedd yn ddiddorol clywed am hynt a helynt teulu chwarelyddol yn y cyfnod arbennig yma, ond yr hyn oedd yn ei wneud hyd yn oed yn fwy diddorol byth oedd, mai taid Cynrig oedd y “chwarelwr” ! Noson ddifyr iawn!

Marchnad Ogwen

Bydd croeso arbennig i’r byd a’r betws ym Marchnad Ogwen ar Ragfyr 13eg, sef ein Marchnad Nadolig. Mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill i greu naws Nadoligaidd hyfryd i’r diwrnod. Bydd parti’r Boncathod yn canu carolau a Siôn Corn yn dod i gael sgwrs gyda phlant bach da Dyffryn Ogwen. Wrth gwrs, bydd yr ystod eang arferol o nwyddau ar gael gan y Stondinwyr - o goed Nadolig i anrhegion unigryw, cardiau a bwydydd o bob math.

Bydd un person lwcus yn ennill taleb gwerth £10 i’w gwario yn y Farchnad Nadolig. Bydd enwau’r cwsmeriaid ffyddlon sydd wedi hawlio eu paned am ddim gyda’r 'cardiau ffyddlondeb' yn mynd i het. Bydd y person lwcus yn cael gwybod mewn da bryd cyn Marchnad Rhagfyr er mwyn iddo/iddi gael amser i benderfynu sut mae am wario’r £10! (Clywsom mai’r person lwcus oedd Carys Parry, Glanogwen).

Y Stodin Elusen am fis Rhagfyr yw Clwb Criced a Bowlio Bethesda. Gobeithio y bydd y Clwb yn cael diwrnod da gyda ni. Y mis nesaf sydd yn rhydd yw Mehefin ar hyn o bryd. (Mae mis Medi wedi ei logi). Mae’r Stodin yma yn hynod o boblogaidd ac felly mae angen llogi ymhell ymlaen llaw.

Nancy Downing o Rachub fydd yn cynnal y Stodin Un Tro mis Rhagfyr. Mae Nancy yn arbenigo mewn blodau ac yn mynd i werthu nwyddau tymhorol sef planhigion ac addurniadau bwrdd Nadolig. Croeso i Nancy atom ni. Y Stodin Un Tro nesaf sydd ar gael yw mis Ionawr. Cofiwch gysylltu gydag aelod o’r Pwyllgor os ydych eisiau Stodin. Mae croeso i chwi roi cynnig ar werthu unrhyw nwyddau sy’n wahanol i’r Stodinau arferol. Oherwydd gofynion cyfreithiol, ni chaniateir gwerthu bwyd. Mae manylion ar ein Bwrdd Gwybodaeth yn y Farchnad.

Felly, gobeithio y cawn eich croesawu atom yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30 ar yr 13eg. Mae manylion llawn am ein Marchnad ar ein gwefan www.marchnadowgen.co.uk . Hefyd, yma mae manylion sut i gysylltu gyda’r gwahanol Stodinwyr os ydych eisiau archebu eu nwyddau.

Gorffen y siopa 'Dolig ar yr 8fed felly!!

CHWARAEON

Karate

Pencampwr Karate



Mewn cystadleuaeth cenedlaethol a gynhaliwyd ym Manceinion yn ystod mis Hydref daeth Dewi Glyn Roberts, 12 oed, adref i Rachub gyda'r fedal aur. Yn y byd carati mae Dewi'n ymddiddori, a phencampwriaethau cenedlaethol yr S.S.K.U. oedd y gystadleuaeth. Bu rhaid i Dewi, sy'n ddisgybl yn Ygol Dyffryn Ogwen, ymladd mewn tair gornest ar y noson, a da cael adrodd ei fod wedi ennill y dair ar ei ffordd i sicrhau'r fedal. Roedd y tri gwrthwynebwr, er yr un oed, gyda beltiau glas, un gris yn uwch na Dewi sydd ar hyn o bryd yn dal belt brown.

Llongyfarchiadau mawr iddo a gobeithio y bydd yn mynd yn ei flaen yn y gamp.



Rygbi

Chwaraewyd nifer o gemau cynghrair a 2 gêm gwpan yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd.

Chwalwyd Yr Wyddgrug o 34 pwynt i 5 ar Dôl Ddafydd gyda cheisiau i Mathew Parry (2), Jared Mitchell, Arwyn Griffith a Gethin Owen. Roedd y gêm yn llawn o redeg da a chyd-chwarae celfydd.

Heb yr haneri dawnus Jared Mitchell a Mathew Parry roedd y dasg yn anodd iawn oddi cartref yn Rhuthun y Sadwrn canlynol. Er hynny, unwaith eto cafwyd perfformiad grymus iawn gan y blaenwyr a chafwyd canlyniad calonogol yn erbyn y tîm sydd ar frig Adran 1 Gogledd erbyn hyn. Dim ond 4 pwynt oedd ynddi ar y diwedd.

Ar un o'r dyddiau a benodwyd i ddathlu pen-blwydd y clwb yn 40 oed, Caernarfon oedd y gwrthwynebwr ar Ddôl Ddafydd. Wedi i ni grafu drwodd gyda gêm gyfartal ym Mhlât Swalec roedd yr ymwelwyr ar dân i dalu'r pwyth yn ôl a sbwylïo'r parti.

Llwyddodd yr hogia' lleol i ennill o 27 pwynt i 23 gyda 3 cais i Mathew Parry a chais cosb am droseddu yn y ryc. Cafwyd noson i'w chofio yn y clwb gyda'r Cofis yn ymuno yn yr hwyl!

Yn ail rownd Plât Swalec bu'n rhaid teithio i Landudno i wynebu tîm sy'n llawn o chwaraewyr ifanc talentog am ambell i hen ben. Roedd gwynt cryf o blaid Bethesda yn yr hanner cyntaf ond di-sgôr oedd hi ar hanner amser.

Yn yr ail hanner llwyddodd Bethesda i sgorio ceisiau drwy Dylan Williams ac Aaron Roberts cyn ildio 2 gais yn erbyn y gwynt nerthol. Roedd Bethesda 17 bwynt i 12 i lawr yn y munudau olaf nes i'r blaenwyr chwalu sgrym Llandudno a gorfodi'r tîm cartref i ildio cais cosb. Llwyddodd Kean Henning i drosi'r cais cosb i roi buddugoliaeth o 2 bwynt i hogia' Pesda.

Pwllheli fydd yr ymwelwyr â Dôl Ddafydd yn Rownd 3 o'r Plât ar 13 Rhagfyr. Roedd rhaid teithio i Feifod i chwarae COBRA yn y gêm gynghrair olaf cyn y toriad gemau rhyngwladol. Cafodd Bethesda gychwyniad gwael iawn i'r gêm ac yn gynnar yn yr ail hanner roedd y tîm cartref 23 pwynt i 0 ar y blaen!

Unwaith eto, daeth yr hogia'n ôl i'r gêm a thrwy geisiau Rhun Morris, Ben Chipperfield, David Buckley a Mathew Morris roedd Bethesda ar y blaen o 24 pwynt i 23 erbyn y munudau olaf. Yn anffodus, mae diffyg disgyblaeth wedi bod yn elfen wael yn hanes y clwb yn ddiweddar. Ildiwyd cic gosb ddi-angen ar ddiwedd y gêm a'r tîm cartref aeth a hi o 26 pwynt i 24.

Roedd y gêm olaf cyn y toriad oddi cartref yn Llangefni yn Rownd 1 o Gwpan Gogledd Cymru. Roedd yn noson wyntog iawn ac roedd Bethesda ar y blaen o 15 pwynt i 3 erbyn hanner amser a'r gwynt o'u plaid. Roedd Rhun Morris a Tiaan Loots wedi sgorio cais yr un a Kean Henning wedi cicio trosiad a gôl adlam.

Bu'n rhaid amddiffyn yn gadarn yn yr ail hanner wrth i'r tîm cartref ddefnyddio'r gwynt yn ddoeth. Gwelwyd cryfder hogia' Bethesda ar ei orau ac ni ildiwyd yr un pwynt yn y cyfnod yma. Ciciodd Henning gôl gosb yn erbyn y gwynt ac ar ddiwedd y gêm dangoswyd nerth y blaenwyr ar ei orau. Am y trydydd tro y tymor hwn enillodd y pac gais gosb oherwydd bod y gwrthwynebwr yn methu gwrthsefyll cryfder blaenwyr Bethesda. Ciciodd Henning y trosiad i roi buddugoliaeth haeddiannol o 25 pwynt i 3 i Fethesda.

Fydd y toriad yn y tymor ddim yn ddrwg i gyd gan i nifer o chwaraewyr dderbyn anafiadau yn ystod y gêm hon. Bydd gêm nesaf Bethesda ar Ddôl Ddafydd ar y 6ed o Ragfyr yn erbyn Bro Ffestiniog.

Os hoffech weld rai o geisiau Bethesda yn ystod y tymor hyd yn hyn ewch i wefan YouTube (www.youtube.com) a theipiwech ceisiau Pesda yn y blwch chwilio.